



# ECO'r Wyddfa

Rhif: 450  
Nadolig 2016/Ionawr 2017  
Pris: 70c



## Agor Y Festri ar ei newydd wedd

Ddiwedd Tachwedd daeth Sian Gwenllian AC i Lanberis i dorri'r rhuban oedd yn dynodi agoriad swyddogol menter gymunedol fydd yn datblygu prosiectau celfyddydol drwy ddarparu canolfan greadigol bwrpasol yn Llanberis. Cartref y Theatr Fach gynt yw'r adeilad yn Stryd Goodman, ac yno roedd Cwmni Drama Llanberis yn cyfarfod. Bellach, caiff ei adnabod fel Y Festri, a'r bwriad yw hyrwyddo sbectrwm ehangach o'r celfyddydau perfformio, a'r rheini yn fwy cyfoes, megis syrcas, disgyblaethau gweledol a digidol.

Adnewyddwyd yr adeilad gyda chymorth grant gan Mantell Gwynedd, ond mae'r rhan fwyaf o'r gwaith wedi ei wneud gan wirfoddolwyr a rhoddion gan fusnesau a sefydliadau lleol. Mae ymrwymiad a chefnogaeth y gymuned yn Llanberis wedi bod yn aruthrol. (parhad ar dudalen 4.)



*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr*

RHIF 450  
Nadolig 2016

Argraffwyd gan  
Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau  
ar e-bost i  
Dafydd Whiteside Thomas  
Bron y Nant, Llanrug  
01286 673515  
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.  
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys  
marged\_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Hafan,  
Llanrug (672221)  
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,  
Brynrefail (01286) 872306  
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,  
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.  
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,  
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,  
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,  
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.  
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,  
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,  
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,  
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,  
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,  
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)  
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:  
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,  
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2015

Rhifyn  
Chwefror

Copi i law  
15 Ionawr

Bwndelu  
27 Ionawr

Ble  
Waunfawr

Mawrth

19 Chwefror

3 Mawrth

Llanrug

LLYTHYRAU

Sesiynau Blasau yn Archifdy Caernarfon

Annwyl Olygydd

Os ydi darllenwyr yr Eco erioed wedi meddwl pa fath o ddeunydd sydd ar gael yn Archifdy Caernarfon wel, mae cyfle iddynt ddarganfod hynny drwy fynychu un o'r sesiynau blasu. Mae sesiynau blasu wedi eu trefnu ar gyfer dydd Sadwrn y 21ain o Ionawr 2017. Bydd sesiwn yn cael ei gynnal yn Gymraeg yn y bore (11-1) ac yn Saesneg yn y pŵn (2-4). I archebu lle ffoniwch (01286) 679 095 neu e-bostiwrch Archifau@gwynedd. llyw.cymru

Gyda diolch  
Lynn C. Francis  
Prif Archifydd

Ysgol Feddygol i Fangor

Annwyl Olygydd,

Mae Ysgol Feddygol Bangor ar y gorwel go iawn yn dilyn bargaen cyllideb ddrafft Plaid Cymru/Llafur. Mae'r Achos Busnes bron wedi'i gwblhau erbyn hyn a sefydlwyd deiseb ar-lein er mwyn cefnogi'r ymgyrch; www.plaidcymruarfon.org/medic\_bangor

Rwy'n credu'n gryf yn y canlynol:

- Byddai Ysgol Feddygol ym Mangor yn arwain at welliant yn ansawdd y gofal meddygol i bobl ein gwlad fel rhan o ddull ledled Cymru o hyfforddi meddygon newydd.

- Nid oes Ysgol Feddygol yn y Gogledd ar hyn o bryd. Mae'r unig ddwy yng Nghymru wedi'u lleoli'n agos at ei gilydd yn y De, gan adael rhan enfawr o'r wlad heb hyfforddiant meddygol llawn.

- Mae hyn yn bwysig oherwydd bod tystiolaeth academaidd o nifer fawr o ffynonellau yn profi bod canran sylweddol o feddygon yn aros i weithio yn yr ardal lle cawsant eu hyfforddi.

- Gan nad oes dim meddygon yn cael eu hyfforddi yma, does dim syndod bod y prinder meddygon teulu a meddygon ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn creu problemau enfawr a phwysau ar y GIG yn yr ardal.

- Ynghyd â phrinder dybryd am welyau (a hynny yn Ysbyty Gwynedd ac mewn cartrefi gofal yng Ngogledd Orllewin Cymru), mae'r sefyllfa gofal iechyd yn ddifrifol yn y Gogledd.

- Mae'r gwariant ar feddygon locwm yn uwch yma nag mewn byrddau iechyd eraill.

- Rhaid inni ddechrau hyfforddi meddygon mewn Ysgol Feddygol yn y Gogledd fel rhan o'r ateb hirdymor.

- Bangor yw'r lle delfrydol - mae'r Brifysgol yn rhagori ym maes addysg sy'n gysylltiedig ag iechyd ac mae eisoes yn gweithio mewn partneriaeth agos ag Ysbyty Gwynedd.

- Mae Ysbyty Gwynedd yn cael ei gydnabod yn eang fel canolfan ragoriaeth (er enghraifft ym maes Meddygaeth y Mynydd) ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau arbenigol yng Nghymru a Lloegr.

- Byddai'r Ysgol Feddygol newydd yn denu myfyrwyr o'r ardal leol, o bob rhan o Gymru ac yn wir o bob rhan o'r byd, gan ddod yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer meddygaeth wledig - i ganfod atebion i'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu gofal mewn ardal denau ei phoblogaeth.

- Gallai'r Ysgol Feddygol newydd fod yn ganolbwynt i addysg feddygol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan hyfforddi'r meddygon dwyieithog sydd eu hangen i gyflawni strategaeth y Llywodraeth, 'Mwy na Geiriau', sy'n cydnabod bod y canlyniadau i'r claf yn well os yw'r cleifion yn gallu cyfathrebu yn eu hiaith gyntaf.

Dyma rai o'r dadleuon o blaid Ysgol Feddygol Bangor. Gobeithiaf y bydd eich darllenwyr yn cefnogi'r ymgyrch ac yn arwyddo'r ddeiseb.

Siân Gwenllian  
Aelod Cynulliad Arfon

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan  
Lywodraeth Cymru

£100: Er cof annwyl am Geraint Rees Morris, Fferm Hafodty, Cwm Brwynog, Llanberis, a hunodd Ionawr 20fed 2012, oddi wrth ei wraig, Eira, a'r plant, ei dad a'i fam a theulu Cefn Coch, ynghyd â theulu Pant Buarth, Brynrefail.

£50: Er cof am Elwyn Foulkes, 3 Rhos Bryn, Cwm-y-glo.

£10: Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, Deiniolen; Edgar a Carys Owen, Waunfawr; Goronwy Lewis, Stryd Ceunant, Llanberis; Jean Roberts, 5 Dôl Eilian, Llanberis; Mrs Nansi Evans, Bryntirion, Penisarwaun; Mrs Nan Owen, 8 Rhos Efrog, Llanberis.

£5: Er cof am Owen Jonah Owen, Llainwen Uchaf, Llanberis.

CYLCH LLENYDDOL  
CAERNARFON A  
GWYRFAI

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon ar nos Fawrth, 17eg Ionawr am 7.30 o'r gloch. Y siaradwr gwadd fydd y Prifardd Myrddin ap Dafydd a thestun ei gyflwyniad fydd 'Yn Ôl i'r Dref Wen'. Estynnir croeso cynnes i bawb. Noddir y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru.

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

London House  
LLANRUG

PEN  
CIGYDDION  
Y FRO

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS  
SELSIG CARTRE  
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA  
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST  
MYNWCH Y GORAU  
DEWCH ATOM NI!!

(01286) 673574



## Yn ystod y mis a aeth heibio ...

• Etholwyd Paul Nuttall yn arweinydd plaid UKIP; y pedwerydd mewn llai na hynny o fisoedd. Yn ei araith gyntaf un dywedodd, “we will champion a fair devolution deal for England, and we will champion the English.” Does ond gobeithio na fydd yn ceisio’u dyrchafu yma yng Nghymru hefyd – ond peidiwch a dal eich gwynt!

• Cafodd Tim Achub Mynydd Llanberis eu galw allan am y dauganfed tro eleni: record i unrhyw dim achub mynydd yng ngwledydd Prydain, a’r tro cyntaf erioed i unrhyw dim achub gael ei alw allan ddau gant o weithiau mewn blwyddyn. Cysidrwch o ddifrif: ar gyfartaledd dyna alwad allan bob yn ail diwrnod gydol y flwyddyn, a’r cyfan gan wirfoddolwyr sy’n rhoi o’u hamser yn ddi-dâl. Ac o ystyried fod gogledd Cymru, ac Eryri yn arbennig, yn cael eu ‘marchnata’ fel lleoliadau delfrydol i ymweld â nhw, dichon mai cynyddu y bydd y pwysau ar yr holl dimau achub o fewn yr ardal.

• Daeargryn gwleidyddol yn Richmond wrth i fwyafrif o ugain mil i’r Ceidwadwr Zac Goldsmith ddiflannu, a buddugoliaeth ysgubol i’r Democratiaid Rhyddfrydol. A’r holl frwydr wedi ei hennill, nid ar estyniad i faes awyr Heathrow fel y tybid, ond ar anfodlonrwydd yr etholaeth ar y penderfyniad i adael y Gymuned Ewropeaidd.

• Mae’r ddadl parthed pwy sydd efo’r hawl i gychwyn y broses o adael y Gymuned Ewropeaidd yn parhau – mewn Llys Apêl, gyda llywodraethau’r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon bellach yn y lob sgows. Disgwyli’r dyfarniad y barnwyr ar ddechrau Ionawr.

• O fewn ychydig ddyddiau byddwn yn dathlu cofio am deulu o ffoaduriaid o’r Dwyrain Canol yn dianc rhag erledigaeth a’r “newyddion da o lawenydd mawr” a ddeilliodd o hynny ddwy fil a mwy o flynyddoedd yn ôl. Nadolig Llawen i chwi i gyd mewn rhyfedd o fyd.

### CLWB CINIO ARFON

Y cinio Nadolig oedd ar yr agenda ar gyfer cyfarfod Rhagfyr yn y Caban. Cafwyd gwledd o fwyd a sgwrsio. Adeg ‘croeso adref’ yw’r Nadolig a dyna wnaethpwyd gyda’n siaradwr gwadd Norman Closs-Parry. Bellach o Garmel , Sir y Fflint ers sawl blwyddyn ond un fel y cyfeiriodd sawl tro na adawodd lethrau’r Fachwen am eiliad o’i fywyd. Y mae’r fro yn ran o’i gyfansoddiad yn ddi-amheuol.

Testun ei sgwrs oedd ei daith o Ysgol Dinorwig i lawr yr allt trwy’r Fachwen nes cyrraedd Ysgol Brynrefail ar y safle ble saif Y Caban erbyn hyn. Cyfeiriodd at athrawon, cymeriadau, teulu a gwahanol leoliadau tu fewn i’r filltir sgwar a’i gyflwynodd i hanes, nature a chymeriadau’r fro. Braf oedd clywed rhai o’r aelodau yn cyd-adrodd rhai o’r cerddi o’r llyfrau darllen cyfnod ei blentyndod. Yn amlwg, prin iawn oedd y dewis yn y Gymraeg dechrau’r 50’au a’r un llyfrau oedd ym mhob Ysgol.

Neilltuodd ganran o’i sgwrs i sôn am argraffiadau yr arch-deithiwr a chofianydd Thomas Pennant ar ei daith i’r Fro. Cawsom wybod am Moses Griffith cyd-deithiwr a chofianydd Pennant trwy air a darlun. Roedd Moses yn Gymro uniaith o Sarn Fellteyrn , Llŷn. Yn ganolig i’r sgwrs oedd anturiaethau Marged Fwyn ach Ifan , y bladres o dafarnwraig, pysgotwr, amaethwraig a sawl dawn arall a gronichwyd mewn caneuon gwerin y cyfnod.Yr oedd Pennant wedi gwirioni a rhyfeddu fod y fath greadur yn bod.

Noson i’w thrysori oedd hon, ac yn yr englyn cyfarch cafwyd darlun o’r newidiadau ar y Fachwen, milltir sgwar genedigol Norman Closs.

Nid y glên gymuned glos – yw hi mwy,  
bwlch mawr sy’n ymddangos.  
Pob bwthyn sy’n dŷ unnos,  
maen ein clawdd yw Norman Closs.

**ECO’r  
Wyddfa**

*Nadolig Llawen  
a Blwyddyn Newydd dda i’n holl ddarllenwyr*

## CALENDRADFENT TU CHWITH Dim yn rhy hwyr i gyfrannu

Calendr  
Adfent  
Tu Chwith

**Plaid Cymru Arfon**  
www.plaidarfon.cymru

Rhowch eitem o fwyd mewn basged bob dydd ym mis Rhagfyr a'i gyflwyno i'ch banc bwyd lleol cyn yr 20<sup>fed</sup> o Ragfyr

Nwyddau i Fanc Bwyd Caernarfon:  
Eglwys Bentecostaidd Cibyn  
Nwyddau i Fanc Bwyd Bangor:  
Cadeirlan Bangor

Neu dewch â'ch cyfraniadau i Swyddfa Plaid Cymru 8 Stryd y Castell

#CalendrAdfentTuChwith

Mae’r gaeaf yn adeg arbennig o anodd i deuluoedd incwm isel gan eu bod yn aml yn gorfod gwneud y dewis anodd rhwng cael digon i’w fwyta a thalu i wresogi eu cartref.

Golyga hyn bod y defnydd o fanciau bwyd yn gallu cynyddu dros y gaeaf wrth i bobl ddefnyddio’r gwasanaeth er mwyn goroesi caledi’r cyfnod.

O ganlyniad i’r cynnydd yma mewn galw, mae banciau bwyd angen mwy o gefnogaeth gan y cyhoedd er mwyn gwneud yn siŵr bod digon o fwyd ar gael i’r rhai sydd ei angen.

Er mwyn ceisio ymateb yn rhannol i’r angen, mae Plaid Cymru Arfon wedi lansio’r Calendr Adfent Tu Chwith, ac yn annog etholwyr i ymuno â nhw.

Yn hytrach na derbyn darn o siocled bob dydd yn ystod mis Rhagfyr fel sydd yn arferol, syniad y Calendr Adfent Tu Chwith yw bod teulu neu swyddfa yn rhoi eitem o fwyd mewn basged bob dydd, ac yn cyflwyno’r fasedd nwyddau i fanc bwyd Bangor a Chaernarfon cyn y Nadolig.

Meddai Siân Gwenllïan, Aelod Cynulliad Arfon dros Blaid Cymru, "Mae’n dorcalon nus bod cymaint o deuluoedd yn dibynnu ar fanciau bwyd a bod cymaint o blant yn byw mewn tlodi ar adeg o’r flwyddyn sydd i fod yn llawn hapusrwydd.

Mae’r Calendr Adfent Tu Chwith wedi bod yn ffordd hawdd i bobol gyfrannu i’w banc bwyd lleol, unai fel teulu, ffrindiau neu gyd-weithwyr.

Byddwn ni yn swyddfa Plaid Cymru yng Nghaernarfon yn llenwi basged ac yn ei rannu rhwng banciau bwyd Caernarfon a Bangor, ac mae croeso i bobol adael cyfraniadau yn y swyddfa os ydynt yn dymuno."

Mae nwyddau i fanciau bwyd Caernarfon a Bangor wedi eu derbyn gydol Rhagfyr, a bydd Swyddfa Plaid Cymru, yn Stryd y Castell Caernarfon yn derbyn nwyddau i fanciau bwyd Caernarfon a Bangor cyn yr 20fed o Ragfyr.

grid 76  
graphic design

North Wales  
**SIGNS**  
Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com  
grid76.co.uk | 07766956673

f

g



# Y Festri (parhad o'r dudalen flaen)



Yn yr agoriad cafwyd blas o'r hyn a gynigir gan Y Festri yn y dyfodol. Ymhlith y rhai oedd yn cymryd rhan roedd y bardd, Martin Dawes, Rhys Mwyn, Syrcas Cimera, a'r arlunydd lleol, Karrina Rosanna Barret. Cafodd rhai o'r plant a'r ieuencid oedd yn bresennol gyfle i fod yn rhan o weithdai syrcas a graffiti. Dymuna'r trefnwyr ddolch i Spar Subway, Pete's Eats, Caffi Sam, Boulder Adventures a Grŵp Datblygu Llanberis am eu cymorth a'u nawdd.

Eisoes mae gweithdai llusernau Nadolig, gwaith celf a dosbarthiadau dawns a symud yn cael eu cynnal yn Y Festri. Os hoffai unrhyw un fod ar restr bostio Y Festri neu am fwy o wybodaeth am y fenter, yna cysylltwch ar [info@yfestri.org](mailto:info@yfestri.org). Mae newyddion diweddaraf i'w cael ar [YFestri.org](http://YFestri.org)

## Newyddion Ysgol Dolbadarn



### Sgor 5 Hylendid Bwyd!

Llongyfarchiadau i Anti Lynda a staff y gegin am dderbyn sgor 5 ar gyfer hylendid a glanweithdra y gegin yn diweddar.

### Gwlad Y Gân A Dagrau- Castell Caernarfon

Cafodd côr yr ysgol brofiad arbennig yn ddiweddar gan eu bod wedi eu gwahodd i berfformio yng Nghastell Caernarfon yn ystod digwyddiad y pabi coch 'Weeping Window'. Perfformiwyd gyda chôr Rygbi Gogledd Cymru darn o'r enw 'Gwlad Y Gân a Dagrau' a gomisiynwyd yn arbennig gan CADW ar gyfer yr achlysur. Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 5+6 weithdai arbennig ar hanes y milwyr lleol gan staff yr amgueddfa. Bu iddynt ganu 'Safwn Yn Y Bwlch' yn y Castell yn ystod yr achlysur yn ogystal.

### Nepal

Daeth Morfudd a Cemlyn i'r ysgol yn ddiweddar i drafod eu gwaith gydag Ysgol yn Nepal a effeithwyd gan ddaeargryn. Mae plant Blwyddyn 3 yn awyddus iawn i godi nawdd ar gyfer yr ysgol hwnnw a byddent yn creu cynnyrch i'w gwerthu yn y ffair nadolig yn ogystal â digwyddiadau eraill yn ystod y flwyddyn.

### Rhieni A Chyfeillion Ysgol Dolbadarn

Hoffai'r ysgol ddolch i Rieni a Chyfeillion yr ysgol am eu rhodd caredig o £5000 ar gyfer prynu adnoddau digidol newydd ar gyfer yr ysgol sef 25 Chromebook a set BeeBots newydd. Bydd sgiliau TGCh y disgyblion yn sicr o ddatblygu yn gyflym drwy'r defnydd o'r adnoddau hyn. Ein bwriad yn y flwyddyn newydd bydd prynu offer garddio a phlannu planhigion o gwmpas yr ysgol.

**Ffair Nadolig:** Cynhaliwyd Ffair Nadolig llwyddiannus iawn y Ganolfan ar y cyntaf o Ragfyr- diolch i bawb am eu cefnogaeth gyda'r teisennau a gwobrau raffl. Diolch hefyd i'r Ganolfan a staff y Cylch Meithrin am bob cymorth wrth drefnu.



## Parhad LLANBERIS

**Dymuna** Nan Owen, 8 Rhes Efrog, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a chyfeillion. Bydd yn anfon cyfraniad i Nyrsus Marie Curie yn hytrach nag anfon cardiau Nadolig. **Cyfeillion Plas Pengwaith** Enillydd y Bwl Bonws am fis Tachwedd oedd Mairwen Baylis.

### OEDFAON CAPEL COCH

Rhagfyr 18fed: Gwasanaeth Nadolig Y Plant am 5yh yn unig!  
25ain: Oedfa Gymun, Gweinidog 10yb  
Ionawr 1af: Richard Lloyd Jones, 10yb  
8fed: Y Gweinidog am 10yb; Oedfa Moli am 5yh.  
15fed: Huw Tegid Roberts am 10yb; Y Parch Huw Pritchard am 5yh  
22ain: Oedfa Deulu am 10.30yb.  
29ain: Canon Idris Thomas am 10yb; Y Parch Dewi T. Morris am 5yh.  
**GWASANAETHAU'R NADOLIG YN EGLWYS SANT PADARN**

6.30: Nos Wener, 16, Hwyl Yr Wyl - Stori, Barddoniaeth, Caneuon a Pypedau, lluniaeth ysgafn i ddilyn.  
2.30: Dydd Sadwrn, 17, Taith i'r Stabl. Cyfarfod tu allan i'r Heights.  
2.00: Dydd Sadwrn, 24, Gwasanaeth Preseb. Croeso i'r plant wisgo i fyny fel unrhyw un o Stori'r Geni.

10.00: Bore Nadolig, Cymun Y Nadolig  
10.30: 1 Ionawr 2017, Un Gwasanaeth i'r Ardal Gweinidogaeth, Darlleniadau a Charolau Nadolig.

**Cyngerdd Nadolig** blynyddol yn Mynydd Gwefru, Llanberis, am 2 o'r gloch dydd Sul, Rhagfyr 18fed, gyda Band Deiniolen, Côr Dyffryn Peris ac unawdwyr. Yr elw tuag at achosion lleol.

**Dymuniadau Nadolig** Dymuna Jean Roberts, 5 Dôl Eilian, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda, ar ran y teulu, i'w holl ffrindiau. Diolch hefyd i bawb am eu cymorth a'u dymuniadau tra bu yn yr Ysbyty.

**Dymuniadau Nadolig** Dymuna Goronwy Lewis, Stryd Ceunant, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w deulu a'i ffrindiau, gan na fydd yn anfon cardiau'r Nadolig hwn.

**Casglu Stampiau Noddedig** Yn ystod 2016 llwyddodd yr elusen-wraig brysur, Haf Thomas, Buarthau, Llanrug, i gasglu stampiau tuag at 'Gymdeithas y Deillion' gydag elw o £600. Buasai'n falch tu hwnt o dderbyn eich casgliad chi o stampiau'r Nadolig hwn ac ar hyd 2017 tuag at yr elusen hon.

Gofynnir yn garedig i chi dorri'r stampiau gydag ymyl o gwmpas y stamp. Os oes stampiau tramor fe'u cyflwynir ar wahân. Rhif ffôn Haf yw 01286 673929.

### Coffau Owen Jonah Owen



Mae'r llun yn dangos Miriam Catrin o Lanrug yn derbyn anrheg arbennig gan ei hewythr Gordon, mewn cyfarfod teuluol i goffau aberth ei hen, hen daid, Owen Jonah Owen, Llainwen Uchaf, Llanberis, ym mrwydr Mammet Wood yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, sef Coron Arian a enillwyd ganddo yn Eisteddfod Llandudno yn 1894 fel arweinydd Côr.

Teimlad Gordon oedd y dylai'r Goron gael ei dychwelyd i'w chynefin, a baint ganddo oedd ei chyflwyno i Miriam gyda'r hyder o barhad traddodiad cerddorol y teulu yn yr ardal.

*Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yn*

# GAREJ GWALIA

**CAEATHRO**  
Ffôn: 673096

**Gwasanaeth**  
**Torri Lawr 24 awr**  
**M.O.T. \* Trwsio Ceir**

**LONDIS**

Ar agor 7 a.m. – 10 p.m. bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayb

**DYMUNA**  
**GWYNFA A MARGARET**  
**PRITCHARD**

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD  
LLANRUG  
Ffôn 872263  
NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
I CHWI OLL

**GERAINT OWEN**  
**CARPEDI**

**CARPEDI • VINYLs • TEILS**  
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS  
**A RHAI MEWN STOCK**

**Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd**  
**A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd**

**(01286)650552 Mob. 07712779475**

**Gwesty Dolbadarn**  
**Llanberis**

**Ffôn-(01286)-870277**

## Eglwys St Helen

### Trefn gwasanaethau ar gyfer y Nadolig

#### Cyfarfod Sgwrs yr Adfent yn Gymraeg

Yn neuadd yr Eglwys Nos Fercher, Rhagfyr 14eg, a nos Iau, Rhagfyr 22ain, am 7yh.

**Dydd Sul Rhagfyr 18eg:** 11yb Gwasanaeth Carolau a darlleniadau yr Adfent

#### Noswyl y Nadolig Rhagfyr 24ain

11 y bore: Gwasanaeth Preseb - croeso i blant ymuno yn y gwasanaeth yma

9 y hwyr: Gwasanaeth Cymun Bendigaid Y Nadolig - estynnir croeso cynnes i bawb.

#### Dydd Sul Ionawr 1af

10.30yb: Gwasanaeth ar gyfer Ardal Weinidogaeth Bro Eryri yn Eglwys St Padarn, Llanberis.

#### Eglwys Agored

#### Dydd Mercher, Rhagfyr 21ain, 3yp – 7yh

Mae croeso i bawb alw i mewn i'r Eglwys i oleuo kannwyll yng ngolau y goeden Nadolig i gofio am anwyliaid, cleifion, milwyr a'u teuluoedd, yr unig, personau sydd ar goll, y digartref, y tlodion, gwledydd â'u pobl sydd mewn argyfwng, neu unrhyw achos personol arall.

Bydd carolau poblogaidd Cymraeg yn cael eu chwarae yn y cefndir. Darperir paned o de neu goffi, a mins pei am ddim i bawb. Estynnir croeso cynnes i bawb.

#### Llyfrau ariannol yr Eglwys

Fe fydd Llyfrau ariannol yr Eglwys yn cau Noswyl y Nadolig, Rhagfyr 24ain, am y flwyddyn 2016. Os dymunir rhoi rhodd ar ôl hyn a allwch ei wneud drwy law y trysorydd, Selwyn Griffith, erbyn Rhagfyr 31ain.

Fe garai Ficer a swyddogion yr Eglwys ddymuno Nadolig Llawen a blwyddyn newydd dda a bendithiol i bawb, ac hefyd diolch i bawb am eu rhoddion hael yn ystod 2016 Diolch yn fawr iawn.

#### Gyrfa Chwist

Fe fydd y gyrfaoedd Chwist yn ail ddechrau ar nos Fawrth, Ionawr 10fed, am 7.30yh

#### Bingo Arian

Fe gynhelir bingo arian yn neuadd yr Eglwys pob yn ail nos Fercher yn y mis am 7 o'r gloch

#### Ysgol Gymuned Penisarwaen

Yn dilyn torri coeden dderwen yn Stablau yn ddiweddar mae Dŵr Cymru wedi bod yn yr ysgol yn plannu'r mës gyda disgyblion yr adran iau. Mae dros hanner cant wedi eu plannu a bydd Dŵr Cymru yn dychwelyd i'r ysgol ym Mis Mai i weld y datblygiad.

Croesawyd PC Dylan i roi sgwrs i BL 5 a 6 am beryglon cyffuriau.

Daeth Ffion o Gyngor Gwynedd i'r ysgol i drafod dulliau o arbed ynni. Bydd y disgyblion yn gweithredu ar ei chynghor dros yr wythnosau nesaf.

**Carolau** – Daeth Cwmni Da yma bore dydd Llun, Rhagfyr Sed, i filmio plant yr ysgol i gyd yn canu Carol. Byddant i'w gweld ar y sgrin fawr ar y Maes yng Nghaernarfon yn ystod cyfnod y Nadolig. Da iawn chi, blant.

Mwynhawyd cinio Nadolig blasus wedi ei baratoi gan Anti Carolyn dydd Mercher, Rhagfyr 7fed. Roedd pawb wedi gwisgo mewn siwmperi Dolig lliwgar.



**Diolch i bawb am gefnogi'r cwbl sydd wedi bod yn digwydd yn yr Ysgol yn ystod y cyfnod yn arwain at y Nadolig, sef amser prysur iawn i bawb. Yn ogystal hoffwn ddiolch am y gefnogaeth mae'r Ysgol wedi ei dderbyn gydol y flwyddyn. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi i gyd.**

#### Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

**Pêl Bonws Loteri** - Enillydd mis Tachwedd oedd Liz Jones, 17 Bryn Tirion, gyda rhif 17.

**Anfonwn** ein cofion at Mr Gwyn Jones "Gwynfi", gan obeithio ei fod yn gwella yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

**Casglu Stampiau Noddedig** Yn ystod 2016 llwyddodd yr elusen-wraig brysur, Haf Thomas, Buarthau, Llanrug, i gasglu stampiau tuag at 'Gymdeithas y Deillion' gydag elw o £600. Buasai'n falch tu hwnt o dderbyn eich casgliad chi o stampiau'r Nadolig hwn ac ar hyd 2017 tuag at yr elusen hon.

Gofynnir yn garedig i chi dorri'r stampiau gydag ymyl o gwmpas y stamp. Os oes stampiau tramor fe'u cyflwynir ar wahân. Rhif ffôn Haf yw 01286 673929.

**Pwyllgor Neuadd** Dymunir diolch i bawb a gefnogodd y 'Te Bach Nadolig' bawn Mawrth, Rhagfyr 13, yn y Neuadd Gymuned. Llauer o ddiolch i staff a phlant yr ysgol am eu cyfraniadau clodwiw a diolch i aelodau'r Pwyllgor am wneud y trefniadau. Cynhelir y Cyfarfod Blyneddol nos Lun, Ionawr 30ain, yn yr Ystafell Gymuned am 7.00 o'r gloch.

**Dymunir** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda yn 2017 i bawb. Atgoffir pawb fod angen adnewyddu aelodaeth y Clwb Cant.

**Eisteddfod Bentref 2017** Cynhelir Pwyllgor nos Lun, Ionawr 30ain, am 7.30 yn yr Ystafell Gymuned – yn dilyn y Cyfarfod Blyneddol.

#### Elusen CRONFA GOFFA R.H. OWEN



Gwahoddir ceisiadau oddi wrth ymgeiswyr cymwys o ddalevich YSGOL BRYNREFAIL am grantiau o'r gronfa uchod ar gyfer hyrwyddo addysg bellach.

Am ffurflen gais anfonwch at yr Ysgrifennydd Mrs Heather Jones, 3 Maes Padarn, Llanberis, LL55 4TE;

[cronfarhowen@aol.co.uk](mailto:cronfarhowen@aol.co.uk)

DYDDIAD CAU: Hanner Nos 30 MEDI 2016

**POSH PAWS**

**TACLUSO CWN**  
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10**

**DYDD SUL 8YB-4YP**  
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen  
(01248) 671382 • 07935324193  
ebost- [juliaposhpaws@btinternet.com](mailto:juliaposhpaws@btinternet.com)

#### SAMARIAID

Mae

**Llinell Gymraeg**

**0300 123 3011**

ar gael bob nos  
rhwng  
7.00pm ac 11.00pm



**Codi Arian** Fe gododd Dewi Rees Williams dros £3,000 tuag at Ward Alaw Ysbyty Gwynedd ar ôl iddo dyfu locsyn a'i siafio ar ddiwrnod Gŵyl Deiniolen yn yr haf. Diolch i bawb â'i cefnogodd ac am eu haelioni.

**Diolchiadau** Dymuna Llion Price a'r teulu ddiolch o galon am garedigrwydd ffrindiau a chymdogion yn dilyn colli gwraig, mam a nain annwyl iawn, Elizabeth, yn ddiweddar. Cyflwynwyd arian er cof amdani i elusen Dementia lleol.

**Cyfarchion y Nadolig** Dymuna'r Cynghorydd Elfed Wyn Williams ddiolch am yr yr holl gefnogaeth a gafodd gan drigolion yr ardal yn ystod y flwyddyn a dymuna Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**Goleuadau Nadolig** Gwelir goleuadau Nadolig eto eleni ar hyd y stryd fawr, gyda

ychwanegiad arbennig yn datgan Nadolig Llawen i bawb, diolch i griw gweithgar Gŵyl Deiniolen am drefnu unwaith eto. Cafwyd noson ddifyr ble gwelwyd y goleuadau yn cael eu rhoi ymlaen gan Frenhines yr Wyl, adloniant gan y band a digon o luniaeth, diolch i'r Wellington. Gorffennwyd y noson gydag arddangosfa tân gwyllt.

### **Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen**

Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau a chymdeithasau lleol am roddion ariannol o'r gronfa uchod. Dylai pob cais gynnwys mantolen ariannol gyfredol wedi ei harchwilio ac yn dangos enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn yr archwilydd. Dylid anfon ceisiadau i'r ysgrifennydd, Glyn Gruffudd, 3 Hafod, Clwt y Bont cyn y dyddiad cau, sef dydd Mawrth 31ain o Ionawr 2017.

**Eglwys Crist** Gwasanaethau'r

Adfent a'r Nadolig am eleni fydd: Pnawn Sul, Rhagfyr 18 am 3.00: Naw Llith a Charol.

Noswyl Nadolig, Rhagfyr 24 am 6.00 yr hwyr: Cymun Cymraeg gyda'r Canon Idris Thomas. Croeso cynnes i bawb yn y gwasanaethau yma.

### **Casglu Stampiau Noddedig**

Yn ystod 2016 llwyddodd yr elusen-wraig brysur, Haf Thomas, Buarthau, Llanrug, i gasglu stampiau tuag at 'Gymdeithas y Deillion' gydag elw o £600. Buasai'n falch tu hwnt o dderbyn eich casgliad chi o stampiau'r Nadolig hwn ac ar hyd 2017 tuag at yr elusen hon.

Gofynnir yn garedig i chi dorri'r stampiau gydag ymyl o gwmpas y stamp. Os oes stampiau tramor fe'u cyflwynir ar wahân. Rhif ffôn Haf yw 01286 673929.

### **Mynwent Eglwys Crist**

Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu yn ystod y flwyddyn

er mwyn cynnal Mynwent yr Eglwys, gan nad ydym yn derbyn unrhyw gymorth ariannol o unrhyw sefydliad tuag at gynnal y fynwent. Mae ein dyled yn fawr i Mr Berwyn Jones sydd yn gofalu am dorri'r gwair yn gyson.

Daeth y cyfraniadau canlynol i law: Di-enw: £10; Di-enw: £10; Mrs Kathleen Davies, 9 Hafod Oleu: £10; Mr Barry Davies, Llanberis: £10; Mrs Clarice Roberts, Tan yr Henffordd: £10; Dennis, Eira, Ann a Julie: £40; Mrs N.M. Williams a'r teulu, 10 Rhes Marian: £20; Mrs Elizabeth Williams, 14 Rhydfadog: £10; Iona Owen, 14 Trefonwys, Bangor: £10; Mrs Elsie Williams, Bethel (Coed Mawr gynt): £10; Mr Meirion Thomas, 11 Tai Caradog: £50; Mr Selwyn Griffith, Llanrug: £20; Mr Hugh Price Hughes, Bethel: £10; Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu: £10.

### **Band Ieuenctid Deiniolen**



Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur i Fand Ieuenctid Deiniolen yn ddiweddar. Dydd Sadwrn, y 26ain o Dachwedd, bu'r band yn cystadlu ym Mhrif Adran Ieuenctid Pencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru. Cipiodd y band yr ail wobwr gyda chanmoliaeth uchel gan y beirniad, Stan Lippeat, ac enillodd Ela Haf Williams, prif gornedydd y band, y wobwr am brif unawdydd y gystadleuaeth.

Roedd amserlen brysur y Band Ieuenctid yn parhau ar nos Lun, y Sed o Ragfyr, pan gynhaliwyd cyngerdd Nadolig y Band Ieuenctid a'r Band Iau yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen. Roedd y ddau fand yn cymryd rhan gyda Osian Tomos yn arwain y Band Ieuenctid a Gareth Williams yn arwain y Band Iau. Yr unawdwyr oedd Ela Haf Williams, Glyn Porter a Lisa Morgan. Yn ystod y cyngerdd enillodd Morgan Gwyn Williams ac Iwan Griffith Darian Coffa Mr a Mrs Eifion Williams i chwaraewyr mwyaf addawol y flwyddyn. Cyflwynwyd Tarian Goffa Mr a Mrs O.H. Jones i'r chwaraewyr a gyfrannodd fwyaf dros y flwyddyn yn y Band Ieuenctid, sef Prys Hughes. Yn ystod y noson cyhoeddwyd mai enillydd Ysgoloriaeth Iwan Williams am 2017 oedd Ela Haf Williams o Bontnewydd.

Cafwyd noson gwerth chweil ac roedd neuadd yr ysgol yn orlawn a phawb wedi mwynhau cyfraniad arbennig dros chwe deg o blant ac ieuenctid talentog yr ardal. Daeth Siôn Corn i'r neuadd ar ddiwedd y cyngerdd a chyflwynodd anrhegion i'r holl blant. Fe wnaeth pawb fwynhau paned a mins pei ar ddiwedd y noson. Dymunai Osian a Gareth ddiolch i'r holl rieni am eu cefnogaeth gyson, i bawb sy'n cynorthwyo gyda'r hyfforddi, i'r plant a'r ieuenctid am eu cyfraniad gwerthfawr, ac yn arbennig i Siôn Corn am gofio amdanynt eto eleni! Gwerthfawrogwyd hefyd gefnogaeth teuluoedd a phentrefwyr a phawb a gynorthwyodd i wneud y noson yn llwyddiant.

Dyma ddiwedd arbennig i flwyddyn lwyddiannus arall i'r Band Ieuenctid ac mae 2017 yn argoeli i fod yn flwyddyn brysur eto gyda ambell ddigwyddiad newydd a chyffrous ar y gorwel. Os yw eich plentyn yn dymuno ymaelodi â'r Band Ieuenctid neu'r Band Iau yna cysylltwch ag Osian ar 07717055639.

**Pencampwyr Gogledd Cymru** Llongyfarchiadau i Seindorf Arian Deiniolen a enillodd Pencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru ar y Sadwrn olaf o fis Tachwedd yn Rhuthun.

Gosodwyd y safon yn ystod y bore, gyda'r Band Ieuenctid yn cystadlu ac yn ennill yr ail wobwr gyda chanmoliaeth uchel gan y beirniaid. I ychwanegu at y llwyddiant boreol, daeth y wobwr am yr unawdydd gorau yn y gystadleuaeth i Ela Haf Williams, prif gornetydd y band ieuenctid.

Camodd y Band Hŷn i'r llwyfan yn y pnawn, a chasglu bron y cyfan o'r gwobrau. Cipiwyd prif wobwr yr adran agored gan ennill ar y darn prawf a'r ymdeithgan. Unawdydd gorau'r diwrnod oedd y chwaraewr soprano, Arwel Williams; a Jeni Lyn Morris gipiodd Dlws Coffa Iwan Williams am y chwaraewr flugel gorau ar y diwrnod.

Yn ystod y seremoni wobrwyo derbyniodd Ieuan Morris ac Irfon Morris, dau aelod hir-oes, dystysgrif am wasanaeth o dros 40 mlynedd i fandiau pres Gogledd Cymru.

Mae'r Band yn parhau'n brysur iawn, gyda llawer o berfformiadau wedi ac i'w cynnal dros gyfnod y gwyliau yn yr ardal.

Dymuna holl aelodau a phwyllgor y Band ddiolch yn fawr iawn i bawb yn yr ardal am y gefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, a hyderu y cawn yr un gefnogaeth yn y flwyddyn i ddod. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.

## **Stwff a Straeon am y Chwarel**

**18 Ionawr 2017 – 6.30 i 7.30 yh**

### **Ysgol Gwaun Gynfi**

**Dewch i rannu eich lluniau, eitemau a straeon am fyw gyda'r chwarel gyda llond llaw o ddisgyblion Ysgol Gwaun Gynfi a rhai aelodau o Fand Pres Deiniolen.**

### **Noson anffurfiol – piciwch i fewn.**

y cartref a'r chwarel

enwau lleoedd

dywediadau a llysenwau

traddodiadau ac arferion

cymdeithasu ac hamddena



TUDALEN YR  
IFANC

Son am Sin (parhad)

Un o ddigwyddiadau mwyaf nodedig y flwyddyn, unwaith eto, oedd taith Mike Peters, gynt o'r Alarm, i gopa'r Wyddfa er mwyn codi arian i elusennau Love Hope Strength ac Awyr Las. Gan ddechrau â gig yng ngaffi Penceunant ar droed y mynydd, bu i'r cerddor arwain llu o ddioddefwyr a'u teulu i'r copa, gan gynnal digwyddiadau cerddorol ar hyd y ffordd. Yn naturiol, derbyniodd y digwyddiad sylw estynedig gan y cyfryngau, a bu iddynt hel bron i hanner can mil o bunnau ar gyfer yr achos teilwng hwn. Ymunodd Alfa, ynghyd â grwpiau amrywiol eraill, â'r canwr enwog ar lwyfan Gwesty'r Heights, Llanberis, mewn dathliad llwyddiannus ar ddiwedd y diwrnod hwnnw.

Mae'n bleser cael dweud nad yw absenoldeb Y Bandana yn golygu nad oes grwpiau ifanc o'r ardal yn barod i gamu i'r adwy. Nid yw'r esgidiau yn rhai hawdd i'w llenwi, o bell ffordd, ond mae grwpiau newydd, ffres, Ysgol Brynrefail yn barod i ymgymryd â'r her. Un o grwpiau mwyaf cyffrous y sîn roc Gymraeg gyfan, heb sôn am yr ardal, yw Alfa, y ddeuawd blas-roc o Lanrug. Mae'n gamp i unrhyw grwp o ddau o gerddorion yn unig greu sain sylweddol heb unrhyw fylchau amlwg. Fodd bynnag, mae Siôn Land, y drymiwr, a Dion Jones, y prif leisydd a'r gitarydd, yn amlwg wedi eu dylanwadu gan ddeuawdau eraill fel y White Stripes, y Black Keys a Royal Blood, sydd yn feistri ar y grefft o'ch gwneud chi feddwl bod yna lawer mwy na dau aelod yn creu'r fath sain. Mae'r ddau wedi bod yn recordio eu EP cyntaf gyda

Robin yn stiwdio Sain, Llandwrog, sydd ar gael i'w phrynu ar lein os ewch yno i chwilio. Bydd digon o gyfleoedd i chi fynd i'w gweld y flwyddyn nesaf hefyd, gan iddynt ymddangos ar restrau cynyddol o nosweithiau cyffrous.

Mae Y Galw yn enw cyfarwydd ers ychydig erbyn hyn, hefyd. Er i'r mwyafrif o'r aelodau, Siôn Emlyn a Wiliam Coles o Fethel a Math Emyr o Benisarwaun, fynychu colegau amrywiol, maent yn parhau i berfformio ac i ddenu cynulleidfa ifanc o gefnogwyr. Aelod arall o'r grwp sydd wedi ymddangos gyda hwy yn ddiweddar yw Magi Tudur, cantores sydd hefyd yn byw ym Mhenisarwaun, sydd wedi rhyddhau cerddoriaeth fel artist unigol. Mae beirniaid y Sîn yn amlygu'r diffyg mewn cerddorion benywaidd sy'n ymddangos ar ein llwyfannau yn gyson, ac felly mae Magi'n un o'r rheiny sydd yn torri'r mowld ac yn arloesi. Bu iddi ryddhau'r sengl 'Coleg Bywyd' fel rhan o Glwb Senglau'r Selar eleni, a rhyddhau ei EP cyntaf, 'Gan Bwyll', ar label Mei Gwynedd, JigCal. Mae'n hanfodol bwysig i'r artistiaid hyn barhau i ysgrifennu cerddoriaeth yn gyson a pherfformio mewn amryw o ddigwyddiadau, lle bo hynny'n bosib, er mwyn cynyddu eu profiad a'u hygyrddedd fel artistiaid newydd. Mae gormod o grwpiau ifanc, addawol, yn methu â chyrraedd eu potensial, felly ewch amdani!"

I ddarllen mwy o adolygiadau Chris a Gethin ewch i [www.sonamsin.cymru](http://www.sonamsin.cymru)

'P W Y G E I T H Y G I G ? '

Wyt ti eisiau bod yn rhan o fand ifanc newydd cyffrous? Eisiau cael y cyfle i gyfansoddi cân newydd sbon gyda arbenigwyr yn y maes, a chael y cyfle i berfformio'n fyw o flaen cynulleidfa fawr?

Mae'r gyfres 'Pwy Geith y Gig' yn ei ôl! Bydd yn cychwyn ffilmio ddechrau Chwefror, ac yn chwilio am 6 aelod i greu band newydd sbon fydd yn cael cyfle i gael eu mentora gan arbenigwyr yn eu maes yn ogystal â chael y cyfle i berfformio yn Eisteddfod yr Urdd, Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elai 2017.

Dros y gyfres, byddwn hefyd yn dod i adnabod 6 o rai o grwpiau mwyaf adnabyddus Cymru heddiw, yn cynnwys y band o Fethel, Plu, wrth iddyn nhw dychwelyd yn ôl i'w cyn-ysgol uwchradd – sef Ysgol Brynrefail!

Dyma gyfres fydd yn cynnig profiadau creadigol a chyfleon i grwpiau cerdd ifanc eraill wrth iddyn nhw ddod i adnabod rhai o fandiau cyfoes gorau Cymru.

Bydd y clyweliadau'n cael eu casglu, ac yna'n cael eu hystyried gan banel uchel eu parch (a'u cloch!) ym myd

canu cyfoes Cymraeg. Nhw fydd yn dewis y band terfynol. Ym mhob rhaglen, fesul un offeryn ar y tro, cawn weld pyfiau o'r clyweliadau, cyfweliadau efo'r ymgeiswyr a bod yn dyst i'r trafod a thafoli gan y panel a fydd yn arwain at ddewis yr aelod a fydd ymuno efo'r band. Yn ystod rhaglenni olaf y gyfres byddwn yn gweld y band yn dod at ei gilydd i ymarfer, dysgu caneuon newydd a bod yn ran o weithdai gyda mentoriaid a hynny yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn, Y Bala.

Bydd y gyfres yn gorffen ar uchafbwynt wrth i ni weld y band newydd yn perfformio am y tro cyntaf wrth ganu caneuon gwreiddiol mewn gig arbennig yn ystod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2017.

Os wyt ti rhwng 11 ac 16 oed, yna dyma dy gyfle i fod mewn band a perfformio mewn gig arbennig!

Am fanylion llawn, cer i [www.S4C.cymru/pwygeithygig](http://www.S4C.cymru/pwygeithygig). Dyddiad cau cystadlu dros y Wê yw Chwefror 10fed, 2016.

Atbion y Cwis Chwaraeon  
1). Rupert Moon, Phil Davies, Mark Jones 2). Ashley Williams, Neil Taylor, McCauley (Googledd Iwerddon trwy rwyd ei hun, 3). Milos Raonic 4). Casewent (Chepstow) 5). Rygbi 7 pob ochr 6). Iwan Griffiths 7). Mark Hughes, Tony Pulis 8). 49). Jade Jones 10). Pakistan

DODREFN A LLORIAU  
**PERKINS**  
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

[www.perkinsfurniture.co.uk](http://www.perkinsfurniture.co.uk)

16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG

**ARVONIA**



- ✓Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓Adran teithiau grŵp.
- ✓Tocynnau rhodd.
- ✓I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 [www.arvoniaco.uk](http://www.arvoniaco.uk)



Yn gyn-ddisgybl Ysgol Brynrefail, mae Leri Tecwyn yn arlunydd sydd erbyn hyn wedi ymgartrefu dros y bont ym Mryste. Dyma'r Eco'n mynd i ddysgu mwy amdani:

Pryd wnes di ddarganfod dy fod yn hoff o arlunio?

O'n i a fy mrodyr yn ddigon lwcus fod Mam wastad yn un da am annog i ni ddatblygu ein ochr craeadigol, felly yn ifanc iawn roeddwn yn hoff o beintio a dylunio. Er tra'n blant bach fy mrawd iau odd y seren, yn un da ofnadwy am ddylunio cartwns digri, a fy mrawd hwn yn un gret am sgetsio cimychiaid, er taw dyna oedd ei holl 'range' yn anffodus. Ond yr oll oeddwn i'n gallu ddylunio oedd merched efo pennau mawr, coesau hir ond dim bol na breichiau. Dwi wedi cadw dipyn o'r elfen swreal yna yn fy ngwaith hyd at heddiw! Ond er i fy mrodyr golli diddordeb wrth dyfu, dwi dal with fy modd.

Pam Bryste?

Cyn cyrraedd Bryste doeddwn i l'n gwybod dim am y lle, ond yn sydyn iawn roeddwn wedi disgyn mewn cariad yn llwyr. Mae gan y ddinas ysbryd annibynol iawn, yn llawn siopiau annibynol - sy'n wych i artistiad allu gwerthu ac arddangos eu gwaith. Mae 'na hyd yn oed y Bristol Pound l'w wario yn ein siopau. Mae hefyd yn hynod gelfyddydol, mae'r strydoedd eu hynan fel orielau, gyda murluniau anhygoel dros y waliau. Ond un o fy hoff bethau ym Mryste ydi'r gwyrddni, er ei fod yn ddinas fawr tydi cae, parc neu goedwig byth yn rhy bell. Mae natur yn elfen eithaf pwysig yn fy ngwaith, ac yn aml mae'r lliwiau dwi'n eu defnyddio yn newid gyda'r tymhorau, felly dwi'n aml yn gweld colli mynyddoedd, caeau a choedwigoedd gogledd Cymru i fy ysbrydoli. Ond yma mae'n ddigon hawdd mynd a sketchbook, cerdded 15 munud a theimlo fy mod yn ôl yng Nghymru.

Beth yw dy hoff gyfrwng o gelf a pham?

Er taw 'gouche' neu dyfiliw dwi'n ei ddefnyddio yn bennaf yn fy ngwaith, rwyf wrth fy modd gyda printio 'sgrin', sef math o dechneg printio ddysgais yn y brifysgol sy'n defnyddio inc, paent a golau UV. Yn aml dwi'n gweld fy hun yn cychwyn ffysian ac gor-weithio elfenau o'n ngwaith, rwyf yn hoffi rhoi patrwm a manylion bach addurol ym mhob cornel o'n paentiadau. Ond tydi hynny ddim yn opsiwn gyda printio sgrin, mae'n fy ngorfodi i symleiddio'r darn, a defnyddiol patrymau, siapiau a lliwiau syml ond cryf, mae'n adfywio!

Mae'r syrclas a themâu tebyg yn ymddangos yn aml yn dy waith. O ble ddaeth y ddylanwad yma?

I fod yn onest, ni allaf fod yn rhy siwr lle gychwynodd y diddordeb! Ond tydw i ddim yn cofio amser lle doeddwn i ddim wedi cael fy hudo gan pob elfen o fydd syrclas - y gwisgoedd, y cymeriadau, yr egni yn y perfformiadau, mae'n fy ysbrydoli'n llwyr i geisio cyfleu egni a hud tebyg yn fy ngwaith. Mae Bryste yn cael ei alw'n 'Circus City', mae syrclas ym mhobman yma, yn aml gallwch fynd allan i'r strydoedd a gweld pobl yn perfformio campau. Ar ôl symud yma i fynd i'r brifysgol (a gweld sioe anhygoel 'Bianco' gan No Fit State yr un flwyddyn) oeddwn yn awyddus i ddarganfod beth oedd yr holl ffys! Felly dechreuais wersi 'trapis', a death yn obsesiwn. Oeddwn yn ddigon lwcus i gael y cyfle i gyfuno'n ddau brif basiwn flwyddyn dwythfa pan wnes i ymuno gydag adran gelf Syrclas Giffords, cyn teithio gyda nhw ar sioe 'Moon Songs' am 6 mis.

Ble all rhywun ddarganfod mwy a phrynu dy waith? Unrhyw siopau lleol?

Byddaf yn diweddarau'n nhudalen 'Instagram' (@leritecwyn) yn rheolaidd, yn dangos fy mhroses artistig yn ogystal â gwaith newydd, mae wefan hefyd ar ei ffordd ([www.leritecwyn.com](http://www.leritecwyn.com)). Mae fy ngwaith ar gael yn fy siop etsy.com (LeriTecwyn) neu gall unrhyw un sy'n digwydd dod am dro i Fryste i wneud eu siopau 'Dolig a gweld fy ngwaith ar waliau 'Biblos' yn ardal Stokes Croft o'r 7fed o Ragfyr am bythefnos.



**NADOLIG LLAWEN  
A BLWYDDYN  
NEWYDD DDA**

i holl gyfeillion yr Antur ym  
mro'r Eco

**Antur Waunfawr**

01286 650 721 [www.anturwaunfawr.org](http://www.anturwaunfawr.org)

ANTUR  
WAUNFAWR

Nadolig Llawen a Blwyddyn  
Newydd Dda oddi wrth

**BRYN AFON  
ENGINEERING LTD**

PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob  
math o waith metel

**GWAITH BRYN AFON**

LLANRUG, Ffôn: 675523



**BRYNREFAIL**

Mrs Lowri Prys Roberts.  
 Ffôn: 870580

**Sefydliad y Merched** Nos Wener, Rhagfyr 2il, ymunodd nifer o aelodau'r gangen leol yn y Noson Carolau a gynhaliwyd dan nawdd Grŵp Eryri o Sefydliad y Merched yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon. Cymerwyd rhan gan Elinor Williams o gangen Brynrefail yn y gwasanaeth.

Nos Lun, Rhagfyr 4ydd, cafwyd noson lwyddiannus yn y Clwb Cymdeithasol yn Llanberis wedi ei drefnu gan yr aelodau gyda Bingo Nadolig a Bwffe. Mae ein diolch i'n llywydd, Pat Jones, am drefnu gwledd ar ein cyfer.

Mae ein diolch hefyd i Shirley Davies a Margaret Ellis sydd yn brysur y dyddiau hyn yn paratoi a threfnu rhaglen lawn ar ein cyfer yn ystod 2017.

**Cyfarchion**

Ar derfyn blwyddyn arall dymunwn anfon ein cofion at yr oll o'n aelodau, yn arbennig y rhai sy'n wael eu hiechyd, gan ddymuno i bawb Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Fendithiol.

**Casglu Stampiau Noddedig** Yn ystod 2016 llwyddodd yr elusen-wraig brysur, Haf Thomas, Buarthau, Llanrug, i gasglu stampiau tuag at 'Gymdeithas y Deillion' gydag elw o £600. Buasai'n falch tu hwnt o dderbyn eich casgliad chi o stampiau'r Nadolig hwn ac ar hyd 2017 tuag at yr elusen hon.

Gofynnir yn garedig i chi dorri'r stampiau gydag ymyl o gwmpas y stamp. Os oes stampiau tramor fe'u cyflwynir ar wahân. Rhif ffôn Haf yw 01286 673929.

**YREGLWYS BRESBYTERAIDD**

*Oedfaon Ionawr 2017 am 5 yr hwyr*

- 1: Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)
- 8: Cyfarfod Gweddi Dechrau Blwyddyn
- 15: Mr Andrew Settaree
- 22: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon
- 29: Mr Euron Hughes, Dolgellau

**CEUNANT**

Trystan a Sioned Larsen,  
 Bodafon, Ceunant (650799)

**Genedigaeth** Llongyfarchiadau i Llinos a Darren Jones, Bryn Berllan, Ceunant, ar enedigaeth eu merch, Branwen Lloer ar y 26ain o Hydref a hefyd i Julie a Dennis Jones, Rhos y Grug, ar ddod yn nain a thaid unwaith eto.

**Casglu Stampiau Noddedig** Yn ystod 2016 llwyddodd yr elusen-wraig brysur, Haf Thomas, Buarthau, Llanrug, i gasglu stampiau tuag at 'Gymdeithas y Deillion' gydag elw o £600. Buasai'n falch tu hwnt o dderbyn eich casgliad chi o stampiau'r Nadolig hwn ac ar hyd 2017 tuag at yr elusen hon.

Gofynnir yn garedig i chi dorri'r stampiau gydag ymyl o gwmpas y stamp. Os oes stampiau tramor fe'u cyflwynir ar wahân. Rhif ffôn Haf yw 01286 673929.

**DINORWIG**

Marian Jones.  
 Ffôn: (01286) 870291

**Marwolaeth** A mis Tachwedd yn dirwyn i ben daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth Emrys Hughes, priod y ddiweddar Jane Catherine Hughes, Groeslon Uchaf. Bu i Jane ragflaenu Emrys ar 28ain o Chwefror y flwyddyn hon. Un o Gwm-y-glo ydoedd, cafodd ei addysg yn ysgol Cwm ac yna yn ysgol Ramadeg Brynrefail ble y bu iddo gyfarfod â Jane a bu i'r ddau briodi rai blynyddoedd wedyn. Buont yn athrawon yn Lerpwl hyd nes iddyn ymddeol ac yn ystod y gwyliau byddent yn dod adref i Groeslon Uchaf.

Yr oedd Emrys wrth ei fodd yn cael dod i Groeslon Uchaf gan y byddai yn cael mynd at yr hogiau i'r Ganolfan i chwarae swncer, lle byddai'n cael croeso mawr bob amser. Yr oedd Emrys wrth ei fodd hefo chwaraeon, byddai yn ei seithfed nef yma.

Bu yn wael ei iechyd am rai blynyddoedd a'i fwriad oedd cael dod yn ôl i'r ardal wedi ymddeol, ond yn anffodus oherwydd salwch blin a hwnnw yn gwaethygu doedd dim modd dod yn ôl i Ddinorwig.

Bu ei angladd ar yr ail o Ragfyr. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn Cwm a Lloegr yn eu galar a'u hiraeth a gobeithio y gallant gofio yr amser da pan oeddynt yn blant yn Cwm gan gobeithio y cewch nerth yn y dyddiau tywyll hyn.

**Cyfarchion y Nadolig** Dymunaf Nadolig Llawen iawn i bawb yn yr ardal ac i holl ddarllenwyr yr Eco ac, wrth gwrs, i Mrs Megan Morris ym Mhlas Garnedd, Llanberis. Cofion annwyl iawn atoch.

**Casglu Stampiau Noddedig** Yn ystod 2016 llwyddodd yr elusen-wraig brysur, Haf Thomas, Buarthau, Llanrug, i gasglu stampiau tuag at 'Gymdeithas y Deillion' gydag elw o £600. Buasai'n falch tu hwnt o dderbyn eich casgliad chi o stampiau'r Nadolig hwn ac ar hyd 2017 tuag at yr elusen hon.

Gofynnir yn garedig i chi dorri'r stampiau gydag ymyl o gwmpas y stamp. Os oes stampiau tramor fe'u cyflwynir ar wahân. Rhif ffôn Haf yw 01286 673929.

**Diolch** i'r Cynghorydd Elfed Wyn Williams am ei gymorth i mi yn bersonol ac i lawer un arall yn yr ardal. Elfed wedi gwneud llawer dros yr ardal, llawer o ddiolch iti.

**Diolch** i Wasg Dwyfor am eu cydweithrediad bob mis. Diolch yn arbennig i'r ddau ddreifar a Hefin o Lanrug sydd mor barod i helpu a thrwy hynny ysgafnhau y baich.

Diolch yn fawr i chi, hogiau, a mwynhewch eich gwyliau.  
**Hwyl yr Ŵyl. Nadolig Llawen a phob bendith i bawb.**



**E. W. Pritchard**

*Trefnwyr Angladdau*

CENTRAL GARAGE  
 LLANBERIS  
 FFON- (01286) 870202

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn




**CANOLFAN OFFER WELDIO**  
**WAUNFAWR Ffôn: 650720**

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH

**DENNIS ROBERTS**

(Glyn Roberts a'i Fab)

**DYNION GLO LLANRUG**

**Ffôn: 675043**

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn



**MODURDY'R WYDDFA**

**Snowdon Garage**

LLANBERIS



**M.O.T**  
**GWASANAETH**  
**CYNNAL A CHADW**

**(01286) 870225**

**BYSUS RHIWLAS**

**BYSUS BACH A MAWR**  
 ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT  
 Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.  
 Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-  
 Ffoniwch (01248) 361044



**D. P. OWENS RHIWLAS**





# CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

## Gaeaf Caled

Tra bu’r Parch Beter Bailey Williams yn rheithor plwyfi Llanrug a Llanberis ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg, cadwodd gofnodion eithaf manwl am ddigwyddiadau o fewn y fro. Ar Gofrestri Plwyf Llanrug a Llanberis mae’n ysgrifennu brawddeg neu gymal gyferbyn a chofnod claddu llawer o’i blwyfolion. Yn aml, mae’n egluro beth oedd achos y farwolaeth – yn ddamwain mewn melin, yn godwm oddi ar gefn ceffyl, o ganlyniad i salwch neu effeithiau megis newyn oherwydd methiant y cnydau. Yn od iawn, does ganddo ddim sylw yn y Cofrestrau Claddu ar gyfer 1823, ond roedd dechrau’r flwyddyn honno yn gyfnod o rew caled a barhaodd am bron i ddeufis, a hyd yn oed ym mis Ebrill roedd adroddiadau ym mhapurau’r cyfnod yn cyfeirio at y dioddefaint yn sgil yr hyn sy’n cael ei alw ganddynt yn “intense frost”.

Roedd Rhagfyr 1822 wedi bod yn weddol dymherus o ran tywydd, ond yna, dros y Calan daeth yr oerni; oerni a barhaodd hyd ddiwedd Chwefror a dechrau Mawrth mewn rhai ardaloedd o Gymru, yn enwedig y gogledd a’r gorllewin. Cyfeirio at y rhew caled a wneir bob tro: does fawr o son am eira.

Prif Farnwr Cylchdaith Caer ar y pryd oedd Hugh Leycester, ac ar ei ymweliadau a’r Llys yng Nghaernarfon, mae’n siwr iddo ddod i adnabod y Parch Peter Bailey Williams a oedd yn Ustus Heddwch. Ddiwedd Ionawr 1823 mae’r Barnwr Leycester yn anfon £20 i Reithor Llanrug a Llanberis er mwyn iddo brynu bwyd, blancedi a dillad i’w dosbarthu i drigolion y ddau blwyf a oedd yn dioddef effeithiau’r oerni. Adroddir hefyd fod Mrs Lloyd, Glangwna wedi cyfrannu £10 i’r un perwyl. (Gwraig Thomas Lloyd, Amwythig, a brynodd Stad Glangwna gan y teulu Cymreig gwreiddiol rhyw ugain mlynedd yn gynharach). Mae Richard Garnons hefyd yn cael ei enwi fel un a fu’n hael ei gyfraniad tuag at y trigolion lleol “and other gentlemen in the town of Carnarvon (sic) have distinguished themselves by numerous acts of charity during the late intense frost.” Erbyn mis Ebrill y flwyddyn honno roedd papur y ‘Cambrian’ yn adrodd fod cyflwr y tywydd wedi bod yn “particularly fatal to the aged and the invalid.” Rhoddir sylw hefyd i’r effaith ar amaethyddiaeth.

Roedd y da byw yn “very backward”, a chafwyd colledion mawr ymhlith y mamogiaid a’r wyn. Oherwydd fod y ddaear wedi rhewi am gyhyd o amser, prin fod gwair yn tyfu, ac yr oedd y cnydau rwdins i gyd wedi eu difetha.

Mae’n amlwg felly fod cryn ddioddefaint wedi bod o fewn y fro ar ddechrau 1823, ac i effaith y rhew caled gael ei deimlo ymhell i mewn i weddill y flwyddyn. Ond prin yw’r cofnodion amdan y gaeaf hwn. Nid oes cyfeiriad o gwbl tuag ato gan John R. Owen yn ei lyfr hynod ddiddorol “Hanes y Tywydd yng Nghymru...” a gyhoeddwyd yn 1975.

Efallai mai un rheswm am hyn yw’r ffaith fod y degawd cyn hyn wedi bod yn llawn gaeafau caled eithafol. Gydol misoedd cyntaf 1811 bu rhew ac eira dros Gymru, a rhewodd llynnoedd ac afonydd. Ddiwedd Rhagfyr 1812 a dechrau 1813 roedd mwyafrif gwledydd Ewrop yn dioddef rhew ac eira. Cofnodwyd trwch o bedair troedfedd o eira mewn rhai rhannau o Gymru, a lluwchfeydd o ddeunaw troedfedd. Roedd gaeaf 1813-14 yn waeth, gyda lluwchfeydd eira o ugain troedfedd. Rhewodd y mor ar hyd glannau afon Menai. Rhewodd Llyn Tegid a llynnoedd Eryri. Roedd afon Tafwys yn Llundain wedi rhewi mor galed fel y cynhaliwyd Ffair Rhew arni, gyda rhostio ychen i fwydo’r cwsmeriaid! Mae’n ymddangos mai gaeaf 1814 oedd yr oeraf o fewn cof yng Nghymru. Doedd 1815 fawr gwell. Roedd misoedd Ionawr a Chwefror yn dioddef rhew caled, ac ar ddiwedd y flwyddyn cafwyd llawer o eira yn Nhachwedd a Rhagfyr.

Ac yna daeth 1816, y flwyddyn na chafwyd haf. Bu eira hyd ganol Ebrill a chafwyd eira eto ganol Mai a chawodydd trymion o genllysg gydol Mehefin. Parhaodd yn oer trwy’r haf, ac erbyn Hydref roedd yr eira wedi dychwelyd.

Caled iawn oedd gaeaf 1819-20 hefyd, gydag eira gydol Ionawr a Chwefror yn cael ei ddilyn gan rew caled.

O’i gymharu a’r dioddefaint o 1811 hyd 1820, mae’n debyg nad oedd gaeaf 1823 i’w gymharu. Ond mae’n amlwg fod yr oerni wedi cael effaith ddifrifol ar drigolion y fro hon, hyd yn oed os na chofnodwyd hynny mor fanwl a’r degawd cynt.

Efallai hefyd i’r rhoddion ariannol dyngarol gael eu defnyddio’n effeithiol gan Reithor y ddau blwyf. Yn ystod Ionawr a Chwefror 1823, tair claddedigaeth yn unig a fu yn Llanberis, ac yr oedd un marwolaeth o ganlyniad i ddamwain yn y chwarel. Yn Llanrug, ni fu unrhyw gladdedigaeth rhwng diwedd Hydref 1822 a chanol Chwefror 1823, a dim ond un gladdedigaeth fu yn Chwefror, a honno eto o ganlyniad i wenwyno’r gwaed. Felly, nid yw’n ymddangos i’r gaeaf caled gael effaith angeuol yn unrhyw un o’r ddau blwyf.

## Pwy yw’r wraig yn y llun?

Anfonwyd y llun gan Glenys Lloyd (Jones gynt) a anwyd ym Mhenygroes, ond a fu’n byw yn Lloegr gydol ei hoes. Mae’r llun yn ei meddiant, a hoffai gadarnhad gan unrhyw un o’r darllenwyr mai Mrs Mary Roberts yw’r wraig.

Ganwyd Mary Jervis yn 1863, merch Thomas a Jane Jervis, Penisarwaun. Yn 1884 priododd Mary Jervis gyda Robert Daniel Roberts. Yn 1911 roedd y par priod yn byw yn Bron y Waen Terrace, Penisarwaun. Bu Robert Daniel Roberts farw yn 1928. Os mai Mary Roberts yw’r wraig yn y llun, roedd yn dal yn fyw ym mis Mai 1944, oherwydd dyna’r dyddiad ar gefn y llun.

Roedd Thomas a Jane Jervis yn cadw’r Commercial Inn ym Mhenisarwaun. Mae’r ddau wedi eu claddu ym mynwent Llanddeiniolen.



## Ysgol Tan y Coed

Geraint Hughes Roberts, Bangor (Llanrug gynt) anfonodd fwy o wybodaeth am y llun.

Yn y trydydd rhes o’r gwaelod, yn y canol - y Sed oddi wrth yr athro mae fy mam Jennie, a oedd yn byw yn "Glyn Arthur" Glasgoed. Wrth ei hochr mae Amy Ty Gwyn, chwaer Miss Parry - athrawes a fu’n dysgu

yn Llanrug. Priododd hi weinidog Wesla - Y Parch ? Thomas. Roedd ganddynt un ferch, Iris, a byddent yn dod i aros ar wyliau i dy ar yr allt o Bonrhythallt i fyny am Benisarwaun. Yr athrawes ydi Miss Mary Madog a fu’n dysgu yn Ysgol Glanmoelyn, Llanrug wedyn.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro’r “Eco”, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle [chwilota.wordpress.com](http://chwilota.wordpress.com)



Nadolig Llawen a  
Blwyddyn  
Newydd Dda gan  
bawb yn Ysgol  
Brynrefail.

# Ysgol Brynrefail

## Yr hogiau'n cael hwyl.

Y mis yma cafodd criw brwdfrydig o hogiau blwyddyn 7 eu dewis i gyd-weithio gydag Aní Llyn sef bardd plant Cymru i greu cerdd am 'Beth sy'n y bag?' Un o'r llinellau greodd un o'r disgyblion oedd, 'Cas pensiliau yn bwyta llyfrau neu pobl o'r de yn yfed tel' Dangosodd Anni Llŷn gasgliad o'i llyfrau i'r hogia a thrafododd hi'r idiomaau a'r cymariaethau'r oedd hi wedi eu cynnwys yn y cerddi. Cafodd yr hogia brynhawn bythgofiadwy yn ei chwmni. Gyda llaw beth oedd yn y bag?

Does neb yn gwybod  
be sy'n y bag du,  
Dim ond plant Brynrefs

## Disgyblion chweched dosbarth yn seremoni Sul y Cofio

Ar fore Sul, Tachwedd 13eg aeth dwy eneth o flwyddyn tair ar ddeg, sef Tesni Schulze ac Elin Roberts o Lanberis i gynrychioli'r ysgol yng ngwasanaeth Sul y Cofio yn Eglwys Sant Padarn. Roedd hwn yn wasanaeth er mwyn cofio am y rhai a gollodd eu bywydau mewn gwahanol ryfeloedd. Wedi hynny cymerodd y ddwy rhan yn y Seremoni draw yng Nghanolfan Llanberis, drwy gyflwyno torch er cof am y rhai gollodd eu bywydau ar ran yr ysgol gyfan.

### Be sy'n y bag?

Ella Ci du newn bwyty  
a nodrwy fear ar fyt y cawr?

Ella Cas pensiliau'n bwyta llyfrau?  
neu Kate Roberts a Rhosgod  
sy'n cygu'n drwn yn y bag?

Ella Beiro fach yn bwyta geroch  
a phobl o'r de yn yfed tel?  
Bricsen goch a Sion Corn  
yn canu cloch?

Ella Gen trwm a hen ddyn llam?  
Mr Jolosty yn chwarae Cell of Duty  
neu geffyl a mul  
yn bwyta cinio dydd Sul?

Ella Jiraff yn mwynhau both?

Ella Babi bencys yn bwyta concys?

Ella Donald Trump yn chwilio am ei bres  
a Hilary bach yn chwilio am fets.

Ella Dant o geg rhywun sy'n canu Cerdd Dant.  
Does neb yn gwybod  
be sy'n y bag du,  
im ond plant Brynrefs  
A'u dychymg cry.

## Diwrnod Sgiliau blwyddyn

Ar ddechrau Tachwedd cafwyd diwrnod o sgiliau yn ysgol – Diwrnod Sgiliau. Roedd gweithgareddau ddisgyblion blynedd 7 i 10. Treuliodd ysgolwyr yr Adran Fathemateg yn derbyn gweithgareddau drylwyr at lwyddiant yn eu harholiadau arferol yn parhau i fyfyrwyr Blwyddyn 10. Dyn 12 wrthi'n ddiwyd yn cefnogi a mer 7 i 9 yn ystod y dydd. Roedd y gwaith mwy gwaith tuag at y BAC Cymreig ac yn foddi cyfathrebu, datrys problemau, llythrennau.

I weddill y disgyblion, roedd y diwrnod yn ymgyrchu Thema diwrnod Blwyddyn 7 oedd 'Ein Hysbys' ddatblygu eu sgiliau meddwl a'r medrau a llythrennedd digidol drwy gymryd rhan mewn hwyliog. Cawsant gyfle i wneud gweithgareddau datrys problemau yn y neuadd chwarae i perfformio sgript gyda'r ap 'Green Screen' i'w hynys. Roedd abdorth y disgyblion yn eu bod wedi mwynhau'n fawr.


Gwrth-fwllo oedd thema diwrnod blwyddyn hwythau wahanol brofiadau fel gwers hysbys drama fer am fwlio a holi'r cymeriadau 'movie maker' ar yr ipads i lunio hysbys poster yn cynghori disgyblion blwyddyn chreu pamffled yn egluro beth yw'r gwaith ddiwedd y dydd cafodd pawb wyllo'r hysbys y gampfa.





Ymgyrch T4U

Diolch i bawb gyfrannodd.



## Críw Patagônia



### Cyfarchion yr Wyl:

Gan nad yw hi'n danfon cardiau eleni, dymuna Nan Owen, Berwyn ddyuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i deulu a chyfeillion. Mae'n dymuno diolch am sawl achos o 'gymwynas dawel' yn ystod y flwyddyn. Llongyfarchiadau i Nan hefyd ar ddod yn hen-nain yn ddiweddar.

### Capel y Cysegr:

Eto eleni, mae gwahoddiad i unrhyw un ymuno â ni yng Nghwasanaeth y Cymun ar Fore'r Nadolig am 10am dan ofal y Gweinidog y Parch. Marcus Robinson. Eleni, bydd y rhoddion drwy gasgliad rhydd yn mynd tuag at waith Cymorth Cristnogol.



Clwb Bro Bethel

Y Pafiliwn Criced ar faes criced Bangor ym mhentref Llandygai oedd y gyrchfan ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr. Daeth 32 o aelodau ynghyd ar gyfer y Cinio Nadolig blynyddol. Roedd pawb wedi eu plesio gyda'r awyrgylch gynnes braf a'r bwyd blasus. Fel arfer cafwyd raffl ac ni aeth unrhyw un adref yn waglaw. Llawer o ddiolch i bawb a gyfrannodd gyda'r gwobrau. Diolch hefyd i Mary Wyn Jones ac Ann Elis am drefnu, ac i Derfel 'bys swyddogol teithiau Bethel' am ein cludo. Bydd seibiant rwan tan gyfarfod Mis Chwefror. Croeso cynnes i unrhyw bensiynwr ymuno. Mae rhaglen amrywiol, hwyliog wedi ei ddarparu.

Lle'r sgwrs ddiddan a'r banad – yw ein clwb

i rai clên, a'n bwriad

yw rhoi cwmniaeth yn rhad,

ein prawf yw gwerth y profiad.

### Cydymdeimlo:

Fel ardal rydym yn cydymdeimlo a Beti, Alwyn, Arfon a'u teuluoedd o 29, Y Ddôl yn eu colled ddisymwth o ŵr, tad a thaid addfwyn iawn. Mae'r teulu yn ddiolchgar iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd ac hefyd i'r cyfraniadau tuag at yr Ambiwylans Awyr er cof am Owie. "Rhodd i'w aelwyd, Owie'r Ddôl."

### Cymdeithas Lenyddol Undebol Bethel

Denwyd cynulleidfâ braf draw i Ffestri'r Cysegr ar gyfer y Cyfarfod Nadoligaidd gan yr aelodau. Cafwyd amrywiaeth o ddarlenniadau a barddoniaeth o'r traddodiadol i'r cyfoes, yn adlewyrchu sawl agwedd o neges y Nadolig. Braf eleni oedd croesawu rhai o ieuenctid y pentref gyda'u cyfraniadau llefaru a cherddorol. Cafwyd canu cynulleidfâol i ategu hen hanes yr Wyl. Diolch hefyd i'r aelodau fu'n darparu lluniaeth o naws Nadoligaidd wei'r cyfarfod. Roedd y noson wedi ei threfnu gan Richard a Mary Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 17 pan ddisgwylir John Grisdale i sôn am waith amhrisiadwy timau achub mynydd.

### Cyfarchion yr Wyl:

Gan nad yw hi'n danfon cardiau

eleni, dymuna Nan Owen, Berwyn ddyuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i deulu a chyfeillion. Mae'n dymuno diolch am sawl achos o 'gymwynas dawel' yn ystod y flwyddyn. Llongyfarchiadau i Nan hefyd ar ddod yn hen-nain yn ddiweddar.

### Casglu Stampiau Noddedig

Yn ystod 2016 llwyddodd yr elusen-wraig brysur, Haf Thomas, Buarthau, Llanrug, i gasglu stampiau tuag at 'Gymdeithas y Deillion' gydag elw o £600. Buasai'n falch tu hwnt o dderbyn eich casgliad chi o stampiau'r Nadolig hwn ac ar hyd 2017 tuag at yr elusen hon.

Gofynnir yn garedig i chi dorri'r stampiau gydag ymyl o gwmpas y stamp. Os oes stampiau tramor fe'u cyflwynir ar wahân. Rhif ffôn Haf yw 01286 673929.

### Diolch

Ar ran y mwyafrif, llawer o ddiolch i'r ffyddloniaid sydd yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol drwy'r flwyddyn i gynnal y llu glybiau a chymdeithasau yn y pentref.

Ar ran Pwyllgor Eco'r Wyddfa diolch i chwi y cyfranwyr a dosbarthwyr.

I bawb yn y pentref arbennig hwn, Nadolig Llawen.

**AVW** ADVANCED VEHICLE WORKSHOP Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porsche **BOSCH Service** Car Service

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

**Which?** Trusted trader **01286 673559** For everything your car needs.

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - [www.AVWBosch.co.uk](http://www.AVWBosch.co.uk)

**NADOLIG LLAWEN**  
**A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

Oddiwrth Dylan A'r Staff  
**SHOP CHIPS TEGFAN**  
**Y SGWÂR LLANRUG**

**(01286) 671211**

**FFRAMIA**  
Parc Padarn Llanberis  
(01286) 870922

**Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU**

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN  
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

[www.ffmpegia.com](http://www.ffmpegia.com)

**Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau**

**TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED**  
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED  
PLASTRO • GOSOD CEGINAU **AMCANGYFRIF AM DDIM**

**Sion Roberts** **07759415753**  
3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

**Premier**

**Y Stofa Premier Llanrug**

Sgwar Llanrug  
**01286-673108**

Bwydydd, Dioddydd, Papurau Newydd,  
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm



# Parhad BETHEL

## Eisteddfod Bethel

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Ddydd Sadwrn, Hydref 15fed, 2016. Y beirniad cerdd oedd Mrs Elen Wyn Keen, Llangristiolus, a'r beirniad llefaru oedd Dr Teleri Mair Jones, Llynfaes. Arweinyddion y prynhawn oedd Mrs Nia Guillemin a Greta Jams, gyda Manon Gwynedd ac Anita Owen yn arwain cyfarfod yr hwyr. Y cyfeilyddion oedd Gethin Griffiths, Siôn Elwyn, Manon Elwyn, Elen Ifans, Deilwen Hughes a Manon Gwynedd. Gwenllian a Cara oedd yn gyfrifol am ddosbarthu'r rhubanau i'r plant ieuengaf.

### CANU AC OFFERYNNOL

Unawdau Cylch Meithrin: 1af – Syfi Dosbarth Meithrin: 1af - Megan, 2il - Lydia, 3ydd - Owain a Jona  
Dosbarth Derbyn: 1af – Megan, 2il – Oliver, 3ydd – Lexi Blwyddyn 1: 1af – Cai, 2il – Anna, 3ydd – Lleucu  
Blwyddyn 2: 1af – Lisa, 2il – Cadi, 3ydd – Steffan a Mared Blynnyddoedd 3 a 4: 1af – Cadi Glain, 2il – Ifan Aled, 3ydd – Ela Blynnyddoedd 5 a 6: 1af – Zara, 2il – Gwawr, 3ydd – Beca Blynnyddoedd 7-9: 1af – Heledd, 2il – Cerys Blynnyddoedd 10-13: 1af – Gwion Wyn, 2il – Erwan, 3ydd – Gwion John

Partion Canu Blynnyddoedd 1-3: 1af – Parti 2, 2il – Parti 1 Blynnyddoedd 4-6: 1af – Parti y Gôl Geidwad Blynnyddoedd 7-13: 1af – Parti Bethel Alaw Werin Blynnyddoedd 1-6: 1af – Gwawr Blynnyddoedd 7-13: 1af – Gwenllian

Cerdd Dant Blynnyddoedd 1-6 : 1af – Gwawr, 2il – Gruff Blynnyddoedd 7-13: 1af – Heledd

Piano Blynnyddoedd 4-6: 1af – Owain, 2il – Mari Buck, 3ydd – Beca a Gwawr Blynnyddoedd 7-9: 1af- Elen Llestyn, 2il – Erin, 3ydd – Ioan Blynnyddoedd 10-13: 1af – Owain Llestyn, 2il - Elen Ifans

Deuawd: 1af – Gwenllian a Heledd, 2il – Beca a Cadi

Offerynnol Blynnyddoedd 1-6: 1af – Beca, 2il – Gwawr, 3ydd – Mari Blynnyddoedd 7-9 : 1af – Elen Llestyn Blynnyddoedd 10-13: 1af – Owain Llestyn

Meimio i Record Gymraeg: 1af – Parti Gwlad yr Astra Gwyn, 2il – Parti Cai

LLEFARU  
Cylch Meithrin: 1af – Syfi Dosbarth Meithrin: 1af – Lydia, 2il – Megan, 3ydd - Harri

Dosbarth Derbyn: 1af – Rhiannon, 2il – Megan, 3ydd – Wil Blwyddyn 1:

1af – Leia, 2il – Cain ac Owain, 3ydd – Caio a Cai Blwyddyn 2: 1af – Caio, 2il – Cadi, 3ydd – Roxy Blynnyddoedd 3 a 4: 1af – Ifan Aled, 2il – Cadi Glain, 3ydd – Ll?r a Lydia Blynnyddoedd 5 a 6: 1af – Gwawr, 2il – Lois, 3ydd – Elis Blynnyddoedd 10-13: 1af – Gwion Wyn

Partion Llefaru Blynnyddoedd 1-3: 1af – Parti 2, 2il – Parti 1 Blynnyddoedd 4-6: 1af – Parti Drewllyd, 2il – Parti Ych a Fi Blynnyddoedd 7-13: 1af – Bethelians Iau, 2il – Bethelians H?n Darn Heb ei Atalnodi: 1af – Heledd, 2il Gwion John, 3ydd – Hari Sgets: 1af – Gr?p Llafur, 2il – Cyswllt Coll ENILLWYR Y TLYSAU  
Cwpan Arian (Llefaru Cynradd): Ifan Aled  
Cwpan Konica (Llefaru Uwchradd): Gwion Wyn

Tlws Coffa Siân Robinson (Darn heb ei Atalnodi): Heledd Prys  
Tlws Parc y Wern (Parti Llefaru Cynradd): Parti Drewllyd  
Tlws Coffa Goronwy Jones (Lleisiol Cynradd): Cadi Glain

Tlws Coffa W.G. Ellis (Piano Cynradd): Owain Roberts  
Tarian Ael y Bryn (Offerynnol Cynradd): Beca Morris

Tlws Coffa Mrs Joan Foulkes (Lleisiol Uwchradd): Gwion Wyn

Tlws Coffa John M Williams: (Piano Uwchradd): Owain Llestyn

Tlws Teulu Penparc (Offerynnol Uwchradd): Owain Llestyn

Tlws Llwyn Eithin (Parti Canu Cynradd): Parti y Gôl-geidwad

Tlws Coffa Annie E Williams (Parti Llefaru Uwchradd): Bethelians Iau

Mae'r tlysau bach sydd i'w cadw am byth yn rhoddedig gan Siencyn a Glenys Griffiths, Wil a Nora Parry, Brian ac Eirlys Sharpe, Elwyn a Gwyneth Jones, Rita Williams, Menna Williams, Alun a Sheila Foulkes, Huw a Nan Jones, Gareth a Rhian Hughes, Margaret a Phillip Williams, Arwel ac Iola Jones, Deilwen ac Elwyn Hughes.

### SEREMONI'R CADERIO

Ein beirniad Llên oedd Mrs Mair Price, Caernarfon, a braf oedd ei chroesawu nôl atom i Fethel ar gyfer y Seremoni. Y Prif Lenor Cynradd oedd Tomos Gibson a'r Prif Lenor Uwchradd oedd Gwenllian Griffiths. Derbyniodd y llenor cynradd Dlws y Gymdeithas Lenyddol a thlws i'w gadw am byth yn rhoddedig gan Maldwyn John a Manon Gwynedd. Derbyniodd y llenor Uwchradd

Dlws Merched y Wawr er cof am Miss Maggie Owen, a thlws i'w gadw am byth yn rhoddedig gan Gareth a Manon Griffiths.

Yr oedd yr Orsedd dan ofal medrus Mrs Rita Williams. Mari ac Alaw oedd Ceidwaid y Cledd, Tomos Efans ac Elen Ifans yn chwythu'r Corn Gwlad, Gwion John yn canu Càn y Cadeirio a Manon Gwynedd yn cyfeilio. Cyrchwyd y llenorion i'r llwyfan gan Mari Llywelyn, Elain, Zara a Lois a chyfarchwyd y llenorion gyda phenillion a gyfansoddwyd gan y beirniad gan Beca ac Owain. Cadi ac Iddon a gyflwynodd y tlysau i'r llenorion buddugol.

Derbyniodd Yr Eisteddfod rodd anrhydeddus gan Mrs Anne Elis a'r Teulu er cof am Geraint Elis. Penderfynodd y Pwyllgor brynu darllenfa a chyflwyno Cwpan i'r llenor buddugol ym Mlynnyddoedd 7-9 yn ogystal â thlws i'w gadw am byth gyda'r arian. Diolch iddynt am eu haelioni. Enillydd y Gwpan oedd Heledd Prys.

### C A N L Y N I A D A U LLENYDDIAETH

Meithrin: rhannwyd y wobwr gyntaf rhwng pawb – Steffan, Lily, Jona, Mabli, Efa, Ifan, Fflur, Gethin, Dyfan, Harri, Megan, Nel, Rio, Lydia, Tristan, Owain, Eli, Robin a Rhys  
Derbyn: rhannwyd y wobwr gyntaf rhwng pawb – Osian, Harry, Ryan, Gracie, Kyla, Dion, Hana, Lexi, Leo, Megan, Maia, Wil, Oliver, James, Rhiannon ac Abigayle  
Blwyddyn 1: 1af – Beca, 2il – Lleucu, 3ydd – Leia a Cain

Blwyddyn 2: 1af – Efa a Cadi, 2il – Ela a Gwen, 3ydd – Steffan a Max

Blwyddyn 3: 1af – Cadi O ac Erin; 2il – Ll?r ac Iestyn; 3ydd – Jac a Nia

Blwyddyn 4: 1af – Elin a Siwan, 2il – Ela ac Ifan J, Cadi ac Ifan Aled

Blwyddyn 5: 1af – Morgan a Lois, 2il – Maddie a Geraint, 3ydd – Hali ac Elis

Blwyddyn 6: 1af – Tomos, 2il – Gwawr a James, 3ydd – Mari ac Owain

Blynnyddoedd 7-9: 1af – Heledd, 2il – Ceriann a Celt, 3ydd – Ioan, Ilan a Bedwyr

Blynnyddoedd 10-13: 1af – Gwenllian, 2il – Gwion Wyn, Hari ac Owain, 3ydd: Sara a Gwenno

Y llinell goll – Mrs Rita Williams

### CYSTADLAETHAU CELF A CHREFFT

Y beirniad oedd Mrs Linda Jones,

Bangor. Unwaith eto cafwyd ymateb da i'r cystadlaethau celf a chrefft gyda nifer o eitemau creadigol iawn . Braf oedd cael arddangos y gwaith yn y Neuadd fechan ar ddiwrnod yr Eisteddfod.

Tlws Celf Gwaith Cynradd (wedi ei wneud yn yr ysgol): Jorja Hughes  
Tlws Celf Gwaith Cynradd (wedi ei wneud yn y cartref): Ifan Buck Jones  
Tlws Celf Gwaith Uwchradd (wedi ei wneud yn y cartref): Elen Ifans

### NOSON DDAWNSIO

Cynhaliwyd noson o ddawnsio llwyddiannus iawn yn y Neuadd Goffa ar yr 2il o Dachwedd. Y beirniad oedd Miss Catrin Jenkins, Llandwrog. Trefnwyd y noson gan Sasha Williams gydag Elen Ifans yn ei chynorthwyo i arwain.

Tlws Teulu Treflys a thlws bychan i'w gadw am byth wedi ei rhoi gan Enid a Meurig Huws – Olly

Tlws Teulu Cefn Ffrwd a thlws bychan i'w gadw am byth wedi ei rhoi gan Rhys a Sian Harris – Elan Jones  
Dawnsio Disgo Unigol

Blynnyddoedd 2 ac Iau: 1af - Olly, 2il – Roxy a Beca Fflur Blynnyddoedd 3-6:

1af – Erin Haf  
Blynnyddoedd 7-9: 1af Elin Wyn

Dawnsio Disgo Pâr Blynnyddoedd 6 ac Iau: 1af – Beca a Lois

Dawnsio Disgo/Creadigol  
Blynnyddoedd 2 ac Iau: 1af – Llwhc

Lloer, 2il – Sêr Bach  
Blynnyddoedd 3 – 6: 1af- Clowniau,

2il – Lois, Alaw ac Efa  
Blynnyddoedd 10 -13: 1af - Sothach

Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am fod yn rhan o Eisteddfod Bethel 2016.

Diolch yn arbennig i bawb a fu'n cystadlu; i'r beirniad am eu hamser, eu cyngor a'u cwmni; i Athrawon a Staff yr Ysgol Gynradd a'r Cylch Meithrin am eu cefnogaeth gyda'r cystadlaethau Llên, arlunio, canu a llefaru unigol; i Adran Y Gymraeg, Ysgol Brynrefail am eu cefnogaeth gyda'r gwaith Llên Uwchradd; i'r holl wirfoddolwyr am roi eu hamser prin i hyfforddi, arwain a chyfeilio; i rieni am gyrchu eu plant yn ôl ac ymlaen i'r ymarferion ac i Bwyllgor y Neuadd Goffa am gael defnyddio'r Neuadd yn ystod yr wythnos. Diolch i ffrindiau a busnesau lleol am roddion tuag at y raffl a chostau'r Eisteddfod a diolch i bawb o Bwyllgor yr Eisteddfod am eu gwaith caled unwaith eto er mwyn sicrhau Eisteddfod lwyddiannus unwaith eto eleni.



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

ODDI WRTH

# MORRIS BROS.

BECWS GORS BACH, CWM Y GLO

Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM MECWS PEN Y BRYN

LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268

70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526



## Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau  
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul  
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253  
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL  
Snowdonia



## Ysgol Waunfawr



### Ymweliadau

Bu dosbarth Cefn Du yn cyd- weithio gyda disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi ac Ysgol Rhiwlas ar brosiect peillio Polli:Nation gydag Anna Williams. Roedden nhw yn dysgu pa blanhigion yw'r gorau am ddenu pryfaid i beillio a chawsant dreulio diwrnod yng nghaeau Treborth.

Bu'r dosbarth hefyd yn gweithio ar brosiect 'Llwybr Llechi' er mwyn creu gwybodaeth i gerddwyr ar y llwybrau. Cawsant ddiwrnod diddorol ar fynydd Cefn Du gydag arweinydd y prosiect Anita Diamond.

### Ymweld â'r Antur.

Yn ystod mis Hydref cafodd pob plentyn gyfle i ymweld â'r Antur i arsylwi ar arwyddion yr Hydref a chael brecwast yn y caffi. Hoffem ddiolch i staff y caffi Anti Tracey ac Anti Diane a'r gweithwyr am y croeso.

### Nosweithiau Rhieni Tymor yr Hydref

Braf yw cael datgan bod pob un rhiant wedi mynychu y nosweithiau rhieni y tymor hwn.

### Cyfeillion yr Ysgol

Roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o rieni wedi dod i gefnogi y noson Rhostio Mochyn ddechrau'r tymor a drefnwyd gan y Pwyllgor Rhieni gwnaed elw o £555. Gwych iawn !.

### Cwrs Preswyl Plas Menai

Treuliodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 dridiau ym Mhlas Menai cyn yr hanner tymor. Cawsant gyfle i feicio ,gwynt syrffio, caiacio ,bwrdd hwyllo a dringo. Diolch i Miss Hannah Francis, Mrs Mari Rowlands a Miss Lisa Williams am oruchwylio'r plant.

### NSPCC

Croesawyd gweithwyr ar yr elusen NSPCC i gynnal gweithdy yn yr ysgol Tachwedd y 3ydd. Byddant yn galw yma bob dwy flynnedd.



### Carys Ofalus

Daeth Carys Ofalus i wobrwyo disgyblion blwyddyn 2 am gwblhau gwersi diogelwch croesi'r ffordd. Diolch hefyd i Nia Ricketts mam Erin ,Amy a Caia m gynorthwyo gyda gwersi blwyddyn 1 yn ystod y tymor.

### Diolch a Chroeso

Hoffem ddymuno'n dda i Mrs Karen Clack mam Ben a Lewis sydd wedi cael swydd cymhorthydd yn Ysgol Rhiwlas. Bu Anti Karen gyda ni am gyfnod o bedair blynedd i gyd. Diolchwn iddi am ei gwaith a dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd.

Estynnwn groeso cynnes i Mrs Manon Williams mam Cian, Caleb, Elain ac Enfys sydd wedi ymgymryd â'r swydd amser cinio. Gobeithiwn y bydd hithau yn hapus yn ein plith.

### Ysgol Brynrefail

Bu plant blwyddyn 6 ar ymweliad yn Ysgol Brynrefail ddydd Llun Tachwedd y 14eg. Roedd pob un ohonynt wedi mwynhau y profiad yn fawr ac yn edrych ymlaen i'w hymweliad nesaf yn nhymor yr Haf.

### Diwrnod Plant Mewn Angen

Roedd yn braf gweld y plant i gyd wedi gwisgo ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen ddydd Gwener diwethaf Tachwedd yr 17eg. Casglwyd £150. tuag at yr achos. Diolch i bawb.

### Gwasanaeth Dydd y Cofio.

Diolch i ddisgyblion blwyddyn 6 am gynnal gwasanaeth dydd y cofio wrth y gofeb fore ddydd Gwener Tachwedd yr 11eg. Diolch hefyd i rai o drigolion y pentref a ymunodd gyda ni.

### Cyngerdd Nadolig Band Ieuenctid Arfon

Llongyfarchiadau i'r disgyblion o'r Adran Iau a gymerodd rhan yng Nghyngerdd Band Ieuenctid Arfon yn Theatr Seilio Nos Fercher Tachwedd yr 23ain. Mae'r disgyblion hyn yn derbyn gwersi pres yn yr ysgol gan Dylan Williams.



## Arddangosfa Ffotograffau Hefin Owen : Dyffryn Peris

Mae pawb yn adnabod Hefin fel gyrrwr un o drenau Rheilffordd Llyn Padarn a hefyd ei fod yn ffotograffydd gwych.

Nawr, mae cyfle i chi gael gweld ei luniau o Dyffryn Peris mewn arddangosfa yn Siop a Chanolfan Cerdded a Darganfod Menter Fachwen ar y Stryd Fawr yn Llanberis – ac mae'r lluniau'n werth eu gweld.

Bydd yr arddangosfa ar agor o'r 2ail Ionawr tan 31ain Ionawr. Cofiwch alw heibio wedi i brysurdeb y 'dolg farw i lawr.



**Dymuna'r** Cynghorydd Edgar Owen a'i wraig, Carys, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

**Clwb 300** Enillwyr y Clwb 300 am fis Tachwedd oedd: £30: Mrs G. Pierce, Bryn Gwyn; £20: Mrs Alma Jones, Tan y Bryn; £10: Mr a Mrs Raymond Parry, Ffridd Felan.

**Merched y Wawr** Nos Wener, 11eg Tachwedd, bu Ann, Irene, Carys a Heulwen Jones yn ein cynrychioli yng Nghwis Hwyl Cenedlaethol y Mudiad. Cafwyd noson dda iawn ym Meifod er nad enillodd ein tîm i. Cwis reit wahanol mae'n debyg a thipyn o ddyfalu ynghylch yr offer cegin! Llongyfarchiadau i dîm Rhiwlas am ennill drwy Gymru.

Nos Iau, 24ain Tachwedd, aeth aelodau'r gangen i Fistro'r Felin yn Llanrug i chwilio am ginio Nadolig, a mwynhau bwyd ardderchog ac awyrgylch gartrefol, groesawgar.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen am 7.30 nos Iau, 26ain o Ionawr, yng Nghanolfan Waunfawr. Bydd cwis yng ngofal Bethan. Rydym yn siŵr o gael noson hwyliog felly croeso cynnes iawn i aelodau hen a newydd.

**Dathlu Pen-blwydd** **Priodas** Arbennig Yn ystod y mis bu Eifion a Rose Anne

Hughes, Stad Tref Eilian, yn dathlu eu Priodas Aur. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da ichi.

**Baban Bach Newydd** Llongyfarchiadau i Erin Haf a'i chymar, Jake, ar enedigaeth mab bach, Elliot, ŵyr i Bethan, Stad Dôl Erddi ac i Dylan, a gor-ŵyr i Arnold a Christina (Stad Bryn Golau gynt).

**Llongyfarchiadau** hefyd i Michelle a Simon, Ger y Ffynnon, ar enedigaeth mab, Toby, brawd a ffrind bach i Ella.

**Ennill Gradd** Llongyfarchiadau i Meg Elis, Glanfa, ar ennill Doethuriaeth am ei gwaith ysgrifennu creadigol yn y Gymraeg.

**Dymuno Gwellhad** Dymunwn wellhad buan i Richard Charge, Llifon, Teras Glyn Afon, wedi iddo gael triniaeth pen-glin yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

**Cydymdeimlwn** yn ddwys â Mrs Iris Parry a'r teulu, Stad Croes y Waun, yn eu profedigaeth o golli chwaer Iris, sef Mary a oedd yn byw yng Nghaerdydd.

**Cydymdeimlo** Yn dawel ar Hydref 14eg bu farw Lesley Vaughan Reece, merch Jean Arfon a'r diweddar Ken Reece. Roedd Lesley yn wyres i'r diweddar Margaret a Wil (Cymro), Llannerch, Cefn Du Teras (gynt). Chwaer i Sian a'i

phriod, Keith, ac i Gareth a'i briod, Nerys a nith i Bethan a Graham. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch yn eich profedigaeth drist.

Bu Jean yn gymorth i'r diweddar Gwyn Davies pan oedd yn cychwyn sefydlu yr Antur yma yn y Waun.

**Profedigaeth** Daeth y brofedigaeth o golli mam i ran Jimmie Burns, Tŷ Capel Croes y Waun. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn eu colled.

**Symud Cartref** Dyna wnaeth Mr a Mrs Fred Buckley yn ddiweddar, symud cartref o'r Waun i Fangor. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd. Estynnwn groeso cynnes i'r teuluoedd sydd wedi ymgartrefu yn y pentref hefyd. Hyderwn yn byddwch yn hapus yn ein mysg.

**Cyfarchion y Tymor** Gyda chyfnod Gŵyl y Geni yn nesau anfonwn ein cofion cynnes a chyfarchion y Nadolig at bawb sydd yn derbyn gofal yn eu cartref ac mewn cartrefi preswyl.

Dymuniadau gorau i bawb dros Wyl y Nadolig a'r flwyddyn 2017. Neges i'r plant – ewch i'r gwely yn gynnar a bydd Siôn Corn yn siŵr o alw.

**Noswyl Nadolig yn Eglwys y Waun** Am 4.30 o'r gloch nos Sadwrn, Rhagfyr 24, yn Eglwys y Waun

bydd Gwasanaeth Noswyl y Nadolig dan ofal 'Sêr y Pentref'. Gwneir casgliad ar y noson tuag at achos da. Dewch i fwynhau ac i gefnogi yr artistiaid a'r trefnwyr. Diolch. Y trefnwyr yw Gwenda Griffith, Trefeddyg a Mererid Llwyd, Cae Rhos.

**Gwasanaethau Eglwys y Waun am Ionawr 2017**

1: Ni fydd Gwasanaeth

8: John Roberts, Llanfairpwll

15: Parch Nan Wyn Powell Davies (Cymun)

22: Anna Jane Evans, Caernarfon

29: Jennifer Ann Roberts (Agor y Llyfr)

Bydd yr Ysgol Sul yn dechrau'r tymor newydd ar Ionawr 8fed. Bydd croeso i aelodau newydd ymuno.

**Casglu Stampiau Noddedig** Yn ystod 2016 llwyddodd yr elusen-wraig brysur, Haf Thomas, Buarthau, Llanrug, i gasglu stampiau tuag at 'Gymdeithas y Deillion' gydag elw o £600. Buasai'n falch tu hwnt o dderbyn eich casgliad chi o stampiau'r Nadolig hwn ac ar hyd 2017 tuag at yr elusen hon.

Gofynnir yn garedig i chi dorri'r stampiau gydag ymyl o gwmpas y stamp. Os oes stampiau tramor fe'u cyflwynir ar wahân. Rhif ffôn Haf yw 01286 673929

## Hen Benillion i'r Flwyddyn 'Newydd' 2016/2017

Gwych yw'r eira ar Yr Wyddfa  
Gwych cân robin nos a bora'  
Gwych y celyn coch eleni  
Gwychach dathlu Gŵyl y Geni!

Gwych yw cofio hen gyfeillion,  
Gwych yw rhoi a chael anrhegion,  
Gwych yw Santa a'i ffyddlondeb  
Gwychach plygu uwch y preseb!

Gwych fydd clychau noswyl calan  
Gwych cael gweld 'rhen flwyddyn allan...  
Gwych fydd gwledd y dydd yn g'leuo  
Gwychach fydd y coed yn deilio!

Norman Closs

## Rhod yr Amser

Pan fo'r hin yn dechrau oeri,  
dail yn chwil o'r coed a'r llwyni,  
Cesyg gwynion ar y gornel,  
gaeaf arall sydd yn gafael.

Wedi'r Wyl a'r holl ddanteithion,  
Wedi'r Calan a'i freuddwydion,  
Daw pob dydd, a rhoddir inni  
un cam ceiliog mwy o 'leini.

Daw fe ddaw yn Wyl San Ffolant  
'Chydig wedyn Gŵyl ein nawddsant  
dewrder eiddil yr eirlysiau  
Cennin Pedr a'u haur drwmpedau.

Glas y derlwyn, glas y dorlan  
Glas y wennol, glas y garan,  
Glas y tonnau, glas yr eog,  
Glas Mis Mai fel parlwr perlog.  
Norman Closs



## CWMY GLO

**Cydymdeimlad** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Ceinwen a Gwenda yn eu profedigaeth o golli eu brawd, Mr Emrys Hughes, yn Lerpwl. Roedd yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Hughes, Craig-y-don (gynt). **Cydymdeimlwn** hefyd â Mrs Julie Rowlands, Mark, Nigel, Colin a'u teuluoedd yn Rachub, Bethesda yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid, sef David Hugh Rowlands, mab y diweddar Mr a Mrs Russell Rowlands, gynt o Talafon, Allt Goch.

**Cyfarchion y Tymor** Nadolig dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref.

**Diolch** Dymuna Catherine, Karen, John, David a theulu y diweddar Elwyn Foulkes, 3 Rhes Bryn, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad, taid, cefnder, ewythr, brawd-yng-nghyfraith a ffrind.

Llawer o ddiolch i Ward Glyder, Ysbyty Gwynedd am y gofal tyner a gafodd Elwyn. Diolch am y llu cardiaid, galwadau ffôn, yr ymweliadau a'r blodau a dderbyniwyd, hefyd am y rhoddion tuag at Feddygfa Llanberis.

Diolch i'r Canon Robert Townsend am ei gymorth a'i wasanaeth yn yr eglwys ac ar lan y bedd; i Dr William Munro am ei waith wrth yr organ; i Dafydd Ellis, ei gefnder, am y deyrnged ac i'r cludwyr, Llifon Foulkes, Elwyn Foulkes, William Foulkes, Elwyn Griffith, Llifon Griffith a Gwyn Griffith. Diolch hefyd i'r Heights, Llanberis, am y lluniaeth.

Diolch yn arbennig i Meinir a Dylan Griffith, Ymgwymerwyr Tros-y-Waen, Penisarwaun, am eu trefniadau trylwyr a gofalus.

**Casglu Stampiau Noddedig** Yn ystod 2016 llwyddodd yr elusen-wraig brysur, Haf Thomas, Buarthau, Llanrug, i gasglu stampiau tuag at 'Gymdeithas y Deillion' gydag elw o £600. Buasai'n falch tu hwnt o dderbyn eich casgliad chi o stampiau'r Nadolig hwn ac ar hyd 2017 tuag at yr elusen hon.

Gofynnir yn garedig i chi dorri'r stampiau gydag ymyl o gwmpas y stamp. Os oes stampiau tramor fe'u cyflwynir ar wahân. Rhif ffôn Haf yw 01286 673929.

## CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**Dymuna'r** Cynghorydd Edgar Owen a'i wraig, Carys, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

**Y Goeden Nadolig** Diolch i'r tîm ffyddlon o wirfoddolwyr am osod y goeden Nadolig ynghanol y pentref unwaith eto. Mae'n arbennig o hardd, a llawer o ardal yr Eco yn dod heibio i'w gweld bob blwyddyn. Bydd Canu Carolau o gylch y goeden fel arfer ond does dim cadarnhad o'r dyddiad hyd yma, felly gwyliwch yr hysbysfwrdd am fanylion.

**Dathlu y Nadolig** Ar Rhagfyr 18ed am 5.30 cynhelir Oedfa Nadolig gyda aelodau, plant, pobl ifanc, cyfeillion a Gweinidog yr Eglwys, a phaned, mins pei a chymdeithasu i ddilyn.

Ar Ddydd Nadolig cynhelir Oedfa Gymun am 10.00 yn Y Cysegr, Bethel.

**Gwellhad** Dymunwn wellhad buan i Victor, Bryn Gof, sydd wedi cael cyfnod yn yr ysbyty gydag anhwylder y galon.

**Clwb Merched** Ar Dachwedd 24ain cawsom gwmni, a noson ddifyr iawn gyda Miss Eirian Pritchard o Gaernarfon. Llond trol o syniadau am addurniadau a chreffftwaith Nadoligaidd, wedi eu cyflwyno yn drefnus ac yn atyniadol iawn. Yn gyn Brifathrawes ysbrydoledig yn Ysgol Bontnewydd am flynyddoedd, bu'n meithrin talentau lawer yn ei disgyblion, ac nid yn lleiaf ym maes crefft ble daeth llwyddiant blynyddol yn Eisteddfodau yr Urdd. Diolchwyd iddi yn gynnes iawn am roi o'i hamser gan Beryl Roberts.

Bydd aelodau y Clwb yn dathlu'r Nadolig gyda chinio yng ngwesty Bryn Eisteddfod ar nos Wener, Rhagfyr 9ed.

**Casglu Stampiau Noddedig** Yn ystod 2016 llwyddodd yr elusen-wraig brysur, Haf Thomas, Buarthau, Llanrug, i gasglu stampiau tuag at 'Gymdeithas y Deillion' gydag elw o £600. Buasai'n falch tu hwnt o dderbyn eich casgliad chi o stampiau'r Nadolig hwn ac ar hyd 2017 tuag at yr elusen hon.

Gofynnir yn garedig i chi dorri'r stampiau gydag ymyl o gwmpas y stamp. Os oes stampiau tramor fe'u cyflwynir ar wahân. Rhif ffôn Haf yw 01286 673929.

**Nadolig Llawen** Dymuna Bethan, Aled a Rhiannon Nadolig Llawen i bawb yng Nghaeathro a'r Cylch a Blwyddyn Newydd Dda iawn i chi i gyd.



**Hywel Williams**  
Aelod Seneddol  
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth**  
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE  
01286-672076  
*neu*  
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR  
01248- 372948  
williamshy@parliament.uk

**ECO'r**  
Wyddfa

*Nadolig Llawen  
a Blwyddyn Newydd dda i'n holl ddarllenwyr*



**2 o'rgloch DYDD SUL  
RHAGFYR 18 2016  
MYNYDD GWEFRU  
LLANBERIS**

- ★ Seindorf Arian Deiniolen
- ★ Côr Meibion Dyffryn Peris
- ★ Unawdwyr lleol o fri

**MYNEDIAD AM DDIM**  
BYDD CASGLIAD AT ACHOSION LLEOL



**Siân Gwenllïan**  
Aelod Cynulliad  
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth,**  
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
(01248) 372948  
**Swyddfa Etholaeth,**  
8 Stryd y Castell, Caernarfon,  
LL55 1SE  
(01286) 672076  
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



## Digido'r Degwm

Dewch i weld hen fapiau gogoneddus o'r ardal ar y We. Cafodd yr ardal hon, fel bron pob ardal yng Nghymru, ei fapio yn fanwl yn ystod yr 1840au ar gyfer casglu'r degwm. Mae'r mapiau yma i gyd, dros 1,200 ohonynt, wedi eu digido yn y Llyfrgell Genedlaethol ac maent arlein ar wefan cynefin.cymru. Croeso i unrhywun fynd ar y wefan yma i edrych arnynt, a chymharu'r hyn a fu gyda beth sydd yma heddiw. Os edrychwch yn fanwl fe welwch reilffyrdd, camlesi, tollbyrth a gweithfeydd mwyngloddio cynnar. Mae tlotai a phlastai ar draws y wlad, a gallwch ddod o hyd i ffermydd mewn mannau anghysbell, a thiroedd amaethyddol sydd bellach wedi eu llyncu gan drefi a dinasoedd - a chronfeydd dwr. Mae prosiect Cynefin hefyd wedi digido dogfennau'r degwm sy'n mynd gyda'r mapiau. Mae'r rhain yn enwi pwy oedd yn talu'r degwm, a phwy oedd perchnogion y tir; gwybodaeth ddiddorol iawn i haneswyr teulu. Gan amlaf mae'r wybodaeth wedi ei roi fesul cae, ac mae hefyd yn cynnwys enwau'r caeau a'r defnydd tir. Mae'r dogfennau a'r mapiau yma yn cael eu trawsgrifio gan wirfoddolwyr er mwyn ei gwneud yn bosib i bawb allu eu harchwilio yn hwylus yn y dyfodol, ac mae dros fil o bobl yn rhan o'r prosiect eisoes. Er hynny, mae digon o waith ar ôl, os hoffech chi ymuno gallwch wneud hynny yn rhwydd ar wefan cynefin.cymru, neu trwy anfon ebost at cynefin@llgc.org.uk



## Un funud fach ...

### DATHLU 450

Yn ôl trefn gyhoeddi Eco'r Wyddfa, daw'r rhifyn hwn o'r Wasg cyn y Nadolig er mai rhifyn Ionawr 2017 ydyw. Rhifyn cyntaf y flwyddyn newydd, ond y pedwar canfed a hanner ers dechrau ei gyhoeddi. Mewn geiriau plaen, dyma rifyn 450 yr Eco'n gweld golau dydd. Mae'r sylweddoliad fod 450 o rifynnau wedi eu cyhoeddi dros gyfnod o 41 o flynyddoedd yn dystiolaeth i lafur gwirfoddol a diflino cynifer o gyfeillion yr Eco dros y blynyddoedd hynny. Diolch ar ran y darllenwyr i bawb sy'n dal i gyfrannu at ei lwyddiant heddiw.


Do, fe gyhoeddwyd bellach 450 rhifyn. Ond ar ddechrau blwyddyn newydd, dowch i ni fwrw trem yn ôl dros 450 o flynyddoedd. Roedd y flwyddyn 1567 yn flwyddyn nodedig yn hanes Cymru a'i phobl gan mai dyna'r flwyddyn y cyhoeddwyd y Testament Newydd yn Gymraeg am y tro cyntaf. William Salesbury a gyfeithodd y rhan fwyaf ohono, ac wrth ei enw ef y caiff y Testament hwn ei adnabod, er iddo gael rhywfaint o help gan Richard Davies a Thomas Huet. Wedi cyhoeddi'r gyfrol hon ym mis Hydref 1567 byddai rhaid aros dros ugain mlynedd nes cyhoeddi'r Hen Destament yn Gymraeg ym Meibl 1588 yr Esgob William Morgan. Yn y cyfieithiad hwnnw, diwygio cyfieithiad William Salesbury a wnaeth William Morgan, yn hytrach na chyfieithu o'r newydd, er i'r diwygio hwnnw fod yn eithaf sylweddol, gan fod Morgan nid yn unig wedi diwygio'r arddull ond wedi diwygio'r geiriad yn helaeth hefyd. Ond wedi dweud hynny, cyfieithiad 1567 Salesbury oedd sail y Testament Newydd a gafwyd ym Meibl 1588 Morgan, ac fe ddylai hynny beri ein bod yn diolch a dathlu mewn rhyw ffordd briodol bedwar cant a hanner yn ddiweddarach yn 2017.

Ond cyn hynny, gan fod y Nadolig eto i ddod, gallwn ddiolch am yr hyn a gyflawnwyd yn 1567 gan Salesbury trwy ddarllen o'r newydd yn yr efengylau'r hanesion cyfarwydd am eni Iesu. Erbyn hyn, wrth gwrs, gallwn eu darllen hefyd yn Y Beibl Cymraeg Newydd ac yn beibl.net, ond beth am eu darllen eto yn yr 'hen gyfieithiad', yn y geiriau a fu'n gyfarwydd i genedlaethau o Gymry dros y pedwar cant a hanner o flynyddoedd diwethaf?

Un peth a wn am gyfieithwyr Y Beibl Cymraeg Newydd a chyfieithydd beibl.net fel ei gilydd yw na fyddai'r un ohonynt yn awyddus i ni, wrth ddarllen eu cyfieithiadau hwy, roi'r hen gyfieithiad heibio. Mae gwaith Morgan, a Salesbury o'i flaen, yn rhy werthfawr i ni adael i hynny ddigwydd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch.

JOHN PRITCHARD



GWAITH  
COFFAOL  
LLANRUG

Ffôn Gwaith  
(01286) 672898

Cartref  
(01286) 871833  
Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

**Dylan Griffith**  
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

**TROS-Y-WAEN PENISARWAUN**

Gwaith Cerrig Beddi  
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol  
24 Awr y Dydd  
Capel Gorffwys Preifat  
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



**CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**  
Cyrrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce  
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



## Eisteddfod Pentrefi Llanrug a Chwmyglo

### Canlyniadau Llwyfan:

Unawd Dosbarth Derbyn: 1af Efa Gwyn; 2il Cari; 3ydd Lleucu; Llefaru Unigol Dosbarth Derbyn: Efa Gwyn; Unawd Blwyddyn 1 a 2: 1af Non; 2il Eban; 3ydd Lois; Llefaru Unigol Blwyddyn 1 a 2: 1af Llio; 2il Owain; 3ydd Eban; Côr Dosbarth Meithrin: 1af Côr Dosbarth Meithrin Ysgol Llanrug; Côr Babanod hyd at flwyddyn 2: 1af Dreigiau Llanrug; Unawd Blwyddyn 3 a 4: 1af Leah; 2il Ynyr; 3ydd Efa Holdsworth; Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4: 1af Ynyr; 2il; Sioned; 3ydd Morgan; Unawd Blwyddyn 5 a 6: 1af Buddug; 2il Sara; 3ydd Beca; Llefaru Unigol Blwyddyn 5 a 6: 1af Nel Gwilym; 2il Erin; Cyd 3ydd Luned a Beca; Unawd Offerynnol Cynradd: Pres: 1af Catrin; 2il Guto; Chwyth: 1af Tanwen; 2il Alaw Swyn; 3ydd Amelie; Piano: 1af Izzy; 2il Beca; 3ydd Shannon; Telyn: 1af Erin Gibbard; Parti Dawnsio Disgo Cynradd: 1af Doliau; 2il Tywyllwch; 3ydd Lladron; Parti Dawns Werin Cynradd: 1af Parti Bale; 2il Parti Ramsey; Parti Llefaru Cynradd: 1af Parti Sbwci; 2il Parti Genod Gorau; 3ydd Parti Gareth Bale; Sgets Cynradd: 1af Doctor Cwac; 2il Sgets Dim Clustiau; Parti / Côr Unsain Cynradd Blynnyddoedd 3-6: 1af Côr Blynnyddoedd 3-6 Llanrug; Llefaru Unigol Uwchradd: 1af Math; 2il Beca; 3ydd Mared; Unawd Uwchradd: 1af Lleucu; Unawd Offerynnol Uwchradd: Pres (Bl 10-13): 1af Iwan; 2il Gethin; Chwyth (Bl 7-9): 1af Nanw; 2il Ela; Piano (Bl 7-9): 1af Enlli; Piano (Bl 10-13) 1af Math; Grŵp Dawnsio Disgo Uwchradd: 1af Angylion Kelly; 2il Gwallgofdy; Sgets Uwchradd: 1af Y Gwylanod; Parti Llefaru Uwchradd: 1af Parti T. Llew; 2il Last Minute; Parti / Côr Uwchradd / Agored: 1af Côr Hafan Gobaith Ieuencid Llanrug.

### Canlyniadau Gwaith Cartref

Dyluniad Cyfrifiadurol Adran Babanod. 1 Elain Beech. 2. Efa Gwyn / Elliw Haf Parry. 3. Elliw Pyrs Jones/Lleucu Pyrs Jones. Adran Iau. 1. Catrin Beech. 2. Alaw Hughes. 3. Morgan Rowlands /Sioned Hughes. Arlunio. Cwpan Emma Bernard i'r arlunydd gorau: Ceri Griffiths Dosbarth Derbyn: 1. Lleucu Pyrs Jones. 2. Efa Gwyn. 3. Ana Hughes. Blwyddyn 1. 1. Elliw Haf Parry. 2. Lois Elen Aaron. 3. Ela Mai Hanks. Blwyddyn 2. 1.Owain Eifion Land. 2. Elis Hughes. 3. Elliw Pyrs Jones. Blwyddyn 3. 1. Ela Jen. 2. Efa Lloyd /Sioned Hughes. 3. Sion Owain Williams / Llio Elen Jones. Blwyddyn 4. 1. Ynyr Iddon

Gwilym. 2. Guto Ewart Parry. 3. Jamie Rogers / Fflur Gwyn Jones. Blwyddyn 5. 1. Lona Efa Jones. 2. Llew Brooks. 3. Luned Llwyd. Blwyddyn 6. 1. Buddug Pennant Jones. 2. Tanwen Fretwell. 3. Erin Gibbard. Blwyddyn 7 ac 8. 1. Mali Brooks. 2. Nel Pennant Jones. 3. Enlli Lloyd Jones. Blwyddyn 11-13. 1 ac 2 Ceri Griffiths. Tri Dimensiwn. Meithrin a Derbyn: 1. Efa Gwyn. 2. Lleucu Jones. Blwyddyn 1 a 2. 1. Elain Beech. 2. Cynan Sion Holdsworth / Elliw Pyrs Jones. 3. Gruffudd Rowlands / Elliw Haf Parry. Blwyddyn 3 a 4. 1. Guto Ewart Parry. 2. Efa Sion Holdsworth / Morgan Rowlands. Blwyddyn 5 a 6. 1. Alaw Hughes / Tanwen Fretwell. 2. Catrin Beech /

Enillwyr y Tlysau Llwyfan: Cadair Lowri i Enillydd yr Unawd ym Mlynnyddoedd 1 a 2: Non Jones; Cwpan W. Park Jones a Rhodd o £10 am y Cyflwyniad Llefaru / Llafar Gorau (Cynradd): Nel Gwilym; Tlws Bwlchgrwnog a Rhodd o £10 am y Perfformiad Cerddorol Cynradd Gorau: Buddug Jones; Tlws Er Cof am Eddie a Moreen Lennon a Rhodd o £10 am y Perfformiad Cerddorol Uwchradd Gorau: Lleucu Brooks; Rhodd o £10 gan Haf Roberts i'r Cyflwyniad Llefaru / Llafar Gorau (Uwchradd): Math Roberts; Cwpan y Perfformiwr a Rhodd o £10: Erin Gibbard.

### Canlyniadau Llen:

Blwyddyn 3 a 4: 1af Seren Edwards; 2il Y Wal Mawr (dim enw); 3ydd Medi Jones. Blwyddyn 5 a 6: 1af Erin Gibbard; 2il Beca Vaughan Parry; 3ydd Evie Kiernan. Tlws y Llenor Cynradd (Blynnyddoedd 3-6): Erin Gibbard. Blwyddyn 7: 1af Mared Llwyd; 2il Mali Brooks; 3ydd Gwion Jones. Blwyddyn 8 a 9: 1af Lois Angharad Roberts; 2il Cara Wyn Jones; 3ydd Eleri Jones. Tlws yr Ifanc (Blynnyddoedd 7-9): 1af Mared Llwyd; 2il Lois Angharad Roberts. Blwyddyn 10 ac 11: 1af Leisa Gwenllian; 2il Iwan Griffith; 3ydd Miriam Catrin Lennon Jones. Blwyddyn 12 a 13: 1af Math Roberts; 2il Ceri Griffith; 3ydd Lleucu Brooks. Cystadleuaeth Y Gadair: 1af Leisa Gwenllian; 2il Math Roberts. Limrig ar y Noson: Enillydd – Luned Gwilym

Beca Fon Parry. Tecstiliau (gwaith creadigol 2D neu 3D) Adran Babanod. 1. Ela Mai Hanks. 2. Lleucu Pyrs Jones / Elliw Pyrs Jones. Adran Iau. 1. Catrin Beech. Uwchradd. 1. Gwernan Brooks. Coginio. Derbyn (Addurno Pitsa) 1. Lleucu Pyrs Jones. Blwyddyn 1 (Cibab). 1. Eban Roberts. 2. Gwern Llwyd Emlyn Gwilym. 3 Lois Elen Aaron / Cynan Sion Holdsworth. Blwyddyn 2 (Salad). 1.Owain Eifion Land. 2. Elliw Pyrs Jones. 3. Anest Haf Hughes. Blwyddyn 3. (Cwcis) 1. Morgan Rowlands. 2. Efa Sion Holdsworth. 3. Llion Williams. Blwyddyn 4 (6 cacen fach) 1. Guto Ewart Parry. 2. Ynyr Gwilym. .

Blwyddyn 5 (Fflan ffrwythau) 1. Cara Awel Williams.2. Alaw Hughes. Blwyddyn 6 (Cacen Gaws) 1. Buddug Pennant Jones. 2. Beca Fon Parry. 3. Lowri Non. Blwyddyn 7,8 a 9. 1. Nanw Llwyd. 2. Elin Daniel Parry. 3. Mared Llwyd. Blwyddyn 10 – 13. 1. Gwion Evans. 2. Macsen Llwyd. Agored (Merched) 1. Delyth Jones. Agored (Dynion). 1. Gwion Evans. 2. Osian Evans. 3. Irfon Jones. Jam/Marmaled. 1 ac 2. Gareth Jones. Coctel. 1. Esyllt Llwyd. 2. Irfon Jones. Dips. 1. Esyllt Llwyd. 2. Delyth Jones. Gosod Blodau: 1. Alaw Hughes. 2. Sioned Hughes. 3. Mairwen Lloyd. Ffotograffiaeth: 1. Ceri Hickey. 2. Nanw Llwyd. 3. Macsen Llwyd / Esyllt Llwyd.

**ELWIER BUDD: PARKINSON'S UK**



**NOSON HWYLIOG O GANU YNG NGHWMNI** TRI GOG A HWNTW

PRYD? LLE? TOCYNNAU?

Ionawr 20fed, 2017. 8 o'r gloch yr hwyr. Talfarn Penbont Llanrug. Tocynau ES\*

\*Ar gael gan Mannon Williams 07815 901848 a Vaughan Williams 07967 584627

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Dave, Bobbie a staff y

**GLYNTWROG LLANRUG**

671191

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl



"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



**DIONI**

<http://dioni.co.uk>  
tel: 01341 247 200  
ebost: gwion@dioni.co.uk





## Coeden Nadolig

Y Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol  
am gael coeden Nadolig ar Sgwâr y Post  
unwaith eto eleni.

**Diolch** Mae John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug yn diolch i bawb am eu caredigrwydd a dymuniadau da yn dilyn ei salwch diweddar. Meddai, "Cefais ofal rhagorol gan Feddygfa Waunfawr/Llanrug, y Gwasanaeth Ambiwylans, yr Ambiwylans Awyr, Ysbyty Glan Clwyd a Gwasanaeth Adfer y Galon. Ond y tonic mwyaf wrth imi wella yw ewyllys da teulu a ffrindiau lleol. Ffanciwi!"

**Merched y Wawr** Bu aelodau'r gangen yn dathlu'r Nadolig yng Ngwesty'r Celt yng Nghaernarfon nos Fawrth, Rhagfyr 13. Mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Ar Ionawr 10fed, edrychir ymlaen at gwmni John Dilwyn o Archifdy Caernarfon gyda 'Hanes Lleol'. Carys, Gwenda a Meirwen fydd yng ngofaly banded a'r raffl gyda Jean, Heulwen, Eryl ac Eirian ar Chwefror 14eg.

Dymunir Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd llawn bendithion i bawb yn 2017.

**Cofion Gorau** Dymunwn adferiad buan i'r canlynol wedi cyfnod o waeledd a llawdriniaethau: Gareth Thomas, Glanffynnon a Hywel a Gwennie Morris, Cadfan, Ffordd Glanmoelyn.

Cofiw'n at bawb sydd ddim yn dda yn y pentref.

**Pen-blwyddi Arbennig** Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Alun Powell, Bryn Moelyn, sydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed. Hefyd i John Roberts, Bedw

Gwynion, sydd yn dathlu ei 70 oed.

**Babi Newydd** Llongyfarchiadau i Dennis a Lorna, Fferm Afon Rhos, ar ddod yn daid a nain i ferch fach newydd Zoe a Greth. Pob dymuniad da i chi.

**Hafan Elan** Mae yn brysur iawn yn Hafan Elan y mis yma, sawl orig fach gyda grwpiau yn eu diddanu cyn y Nadolig a darfod y tymor gyda chinio mewn gwesty yng Nghaernarfon – hwyl fawr ichi a Nadolig Llawn.

**Cydymdeimlad** Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Geraint a Margaret Parry, Bro Dawel; Cerid a Dafydd MacKinnon, Plastirion a Gwenan a'r teulu yn Wrecsam. Maent wedi colli eu mam, sef Mrs Eurwen Hughes Parry, Cae Bold – oedd hefyd yn nain annwyl a hen nain garedeg iawn.

**Ymgyrch Stampiau Haf** Mae Haf Thomas, Buarthau, wedi bod yn casglu stampiau oddi ar amlenni ac mae eisiau diolch i bawb am eu hel iddi. Cafodd wybod yr wythnos yma ei bod wedi casglu gwerth £600 tuag at Gymdeithas y Deillion. Llongyfarchiadau mawr, Haf! Wnewch chi, os gwelwch yn dda, dorri'r stampiau oddi ar eich cardiau Nadolig eleni – gadwch fymryn o'r amlen o gwmpas y stamp. Gallwch adael y stampiau yn Hafan Elan lle mae Ann, mam Haf, yn helpu gyda'r clwb cinio.

**Cyfarchion y Tymor** Dymunwn Nadolig Dedwydd i bawb ac edrychwn ymlaen i

**Llwyddiant** Cafodd Bethane Williams 2il yng nghystadleuaeth Merched y Wawr yn Sioe Aeaf 2016, Llanellwedd- Tylluan unrhyw Gyfrwng.



flwyddyn newydd 2017.

### Capel y Rhos

Carwn ddiolch o galon i bawb a gefnogodd y cyngerdd arbennig yn y Capel ar Sul cyntaf yr Adfent. Braff oedd gweld cymaint o gynulleidfa yno. Cydnabyddwn yn ddiolchgar iawn yr holl roddion a ddaeth i law – yn arian, bwyd ar gyfer lluniaeth yr artistiaid, y blodau a'r gwobrau. Mawr yw ein diolch i Gôr Cofnod, Caernarfon, ynghyd â'r unigolion ifanc o'r pentref fu'n diddanu gyda'u holl dalentau amrywiol. Diolch arbennig i Math Roberts am fod fel angor cadarn wrth y piano. Gobeithio y cawn gyngerdd tebyg eto yn 2017.

Oedfaon mis Ionawr 2017

1: Gweinidog, y Parch Marcus Robinson a gweinyddir y Cymun

8: Cyfarfod Gweddi ddechrau'r flwyddyn

15: Y Parch Marcus Wyn Robinson

22: Y Parch Cath Williams, Caernarfon

29: Y Parch Eric Jones, Bangor.

### Cyfraniadau 2016

Bydd llyfrau'r capel ar agor tan Rhagfyr 31ain. Atgoffir yr aelodau y byddwn yn derbyn cyfraniadau 2016 hyd at hynny. Diolch yn fawr.

### Noson o Ganu Carolau

Yn ôl eu harfer bydd Band Llanrug yn cynnal noson o ganu carolau cyn y Nadolig. Mae hwn wedi bod yn draddodiad gan y band ers blynnyddoedd bellach, gan gychwyn yn yr hen gwt band, yna yn neuadd yr ysgol gynradd. Eleni, bydd y noson yn cael ei chynnal yng Nghapel y Rhos, Pontrythallt ar nos Fawrth, 20fed o Ragfyr am 7.00. Yn ystod yr egwyl bydd cyfle i'r gynulleidfa fwynhau paned a mins pei. Lleoliad newydd ond y traddodiad yn parhau. Dewch draw i fwynhau'r band ac i gyd-ganu'r hoff garolau.

### Plaid Cymru

Enillwyr Clwb Cant Rhagfyr  
1...Eurwen Rowlands, Llys Forgan  
2...Geraint Jones, Gwel Elidir, Cwmyglo





# Ar ben arall i'r lein

Dyma ni unwaith eto ar drothwy Nadolig arall, ble mae'r blynyddoedd ma'n mynd 'dwch? Ar yr adeg yma o'r flwyddyn byddaf yn rhoi rhyw gip dros fy ysgwydd ar be sydd wedi bod ac yn fwy na dim be yw'r gobaith am y dyfodol. Diolch i'r drefn, hyd yn hyn 'rwyf wedi cael iechyd i ddilyn a chymryd rhan mewn nifer o ddiddordebau, a does dim eisiau egluro pa un o'r rhai sydd ar ben y rhestr. Drwy drin yr enwair daeth elfen arall i'r grefft a hynny yw: Rhagfyr eleni byddaf wedi bod yn gweithredu ar ran y Gymdeithas Bysgota am 38 mlynedd, be sydd wedi ei gyflawni dros yn holl flynyddoedd, tybed?

Cefais fy rhoi ar y ffordd weinyddol yma gan y diweddar Oscar Evans pan ofynnodd imi os buaswn yn gwneud ffafr â'r Gymdeithas 'Sgota drwy lenwi i mewn fel ysgrifennydd am flwyddyn, i roi cyfle i'r clwb ymholi a phendroni ar benodiad olynedd hir dymor i'r cyn-ysgrifennydd a oedd wedi rhoi'r gorau i'r swydd. Wel mae'r flwyddyn honno wedi troi allan yn un hir dros ben!

Wrth ymafael â'r gwaith sylweddolwyd yn fuan iawn fod nifer o aelodau'r pwyllgor gwaith gyda gweledigaeth am y dyfodol, y weledigaeth oedd fod yn rhaid prynu hawliau pysgota er mwyn sicrhau'r dyfodol. Ia, yn 1979 'roedd tir-feddianwyr lleol - ffermwyr y rhan fwyaf - yn gefnogol dros ben i amcanion y Gymdeithas, sef i sicrhau fod yr hawliau pysgota i barhau mewn dwylo lleol.

Drwy weithredu'r weledigaeth yma, mae hawliau pysgota eang ar ddyfroedd lleol ym mherchnogaeth y clwb. Ond, o'r holl brynu mae dau drosoglwyddiad wedi rhoi gwefr eithriadol imi, sef pryniant oddi wrth Dŵr Cymru o ran helaeth o hen ddyfroedd Stad y Faenol, ac i ddilyn rhan o Lyn Padarn a'r Afon Llyfni oddi wrth Stad Glynllifon. Be fuasai'r hen bererinion lleol yn ddweud am hyn tybed, wrth gysidro bod y rhan fwyaf o'r ardal wedi bod yn daeog i'r stadau yma am eu cynhaliaeth. Tipyn o newid byd yn 'de.

Do, mi fu prysurdeb mawr dros nifer o flynyddoedd i weithredu'r freuddwyd, ond ni fuasai'n deg heb imi estyn ein diolchiadau diffuant i nifer o gyrff cyhoeddus a fu mor gefnogol inni allu gweithredu'r ymdrech. Y mwyaf cefnogol ar un amser oedd Cyngor Chwaraeon Cymru. 'Roedd ganddynt hwythau rhai blynyddoedd yn ôl yr un weledigaeth o gefnogi cymdeithasau

pysgota Cymru i droi o fod yn brydleswyr i fod yn berchenogion. Yn anffodus, newidiodd agwedd y corff yma i ganolbwyntio ar faterion oedd i'w symud o fod yn gefnogwyr brwd i fod yn faen tramgwydd i amcanion clybiau pysgota lleol. Do, mae rhywbeth mawr wedi mynd o'i le gyda'r corff yma - efallai fod rhan o hyn i'w wneud gyda'r penderfyniad diweddar i atal ei fwrdd rhag gweithredu. Mae llawer un wedi dweud wrthyfod cryn ddrewdod i'w arogl i gyfeiriad Gerddi Soffia 'na.

Drwy berchenogaeth daw cyfrifoldebau hefyd, a chyfrifoldeb arbennig y gwarchod a gweithredu yn erbyn llygredd, yn enwedig ar adegau pan ei bod yn ddigon clir i bawb am amharodrwydd ein cyrff statudol i weithredu ar y problemau. Mae achos Llyn Padarn yn gyfarwydd i bawb, ond y gwirionedd yw na fuasai dim wedi ei wneud i atal gweithredu gwarthustem garthffos Llanberis heb ymdrechion ein cynrychiolwyr, Fish Legal. Ond cofiwch nid y Gymdeithas yn unig sydd wedi elwa o hyn ond yr holl ardal. Mae Dŵr Cymru wedi hen ddechrau ar ei gwariant o dros £7 miliwn i wella seilwaith carthffos Llanberis, Nant Peris a Phenisarwaen. Yr holl gost o gyfreithwyr, bar-gyfreithwyr ac arbenigwyr i roi'r dystiolaeth o flaen y llysoedd oedd oddeutu £300,000. Un corff sydd wedi cael budd mawr o'r gweithgaredd yma yw Cyngor Gwynedd, 'sgwn i a fydd y sefydliad yma yn teimlo fel cyfrannu rhyw ychydig i gydnabod ein gwaith. Sgwn i!!


Wel dyna ddigon o edrych dros ysgwydd, rhaid nawr ydi gwneud y gorau o bethau ac edrych ymlaen at y dyfodol, ac i'r perwyl yma mae'r Gymdeithas wedi hen ddechrau arni i fanteisio ar ein eiddo.

Fel y gwyddoch mae Melin y Cim a'r lannau'r Llyfni wedi ei addasu i fod yn llety hunangynhaliol hynod o lwyddiannus. Mae nifer o adeiladau tebyg yn perthyn i'r clwb ac rwy'n teimlo mai rhan o'r ffordd ymlaen am 2017 fydd edrych a fydd posib dilyn y llwybr sydd wedi bod mor lewyrchus ym Mhontllyfni. 'Rwyf newydd ddod yn ôl o edrych ar ddatblygiadau yn ardal y llynnoedd, buasai adlewyrchu llawer o be sydd mynd ymlaen yno yn creu adeiladwaith cyffrous yma. Yn fwy na hyn buasai hwb eithriadol yn cael ei roi, nid yn unig i'r Gymdeithas, ond hefyd i economi'r ardal yn gyffredinol.

Wrth gymryd hyn i ystyriaeth o bosib y cawn edrych ymlaen at 2017 fel blwyddyn reit gyffrous, neu o leiaf un ddadleuol.

Drwy gloi hoffwn ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd eithriadol o lwyddiannus i chwi oll, diolch dros ben am eich cefnogaeth. Dyma sydd yn gwneud y gwaith mor blesurus.


Huw Price Hughes.

**Ffenestri CADNANT Windows**  
iorwerthwilliams@fsmail.net  
**DRYSAU □ FFENESTRI**  
**A CONSERFATORIS UPVC**  
**AMCANBRIS AMDDIM**  
13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

**Gwasanaeth Gwres a Plymio**  
  
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio  
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser  
**Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW**  
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

**CEIR CYMRU**  
Diolch am Gefnogaeth ein Cwsmeriaid yn Eryri dros **25** Mlynedd  
gareth.w.jones@hotmail.co.uk  
www.ceircymru.com  
**Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN**  
**01248-671770/670451**

**ORIEL CWM**  
CWM Y GLO  
Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle  
**PRISIAU RHESYMOL**  
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol  
**Richard S. Humphreys**  
Ffon/ Ffacs- (01286) 870882

**HUW OWEN**  
**PLASTRWR ADEILADWR LLEOL**  
**22 BLWYDDYN O BROFIAD**  
Ffôn- 01286 677668  
Symudol- 07940023159  
Gladwyn Station Rd. LLANRUG, Caernarfon LL55 4AG  
Eboist- lisa.huw@btinternet.com



1. Pa dri cyn-chwaraewyr rhyngwladol i Gymru sydd wedi hyfforddi tîm rygbi rhanbarthol y Gogledd, RGC?
2. Pa dri amddiffynwr sgoriodd goliau i Gymru yn rowndiau terfynol Ewro 2016?
3. Ym myd tennis, Murray yw rhif 1, Djokovic yw rhif 2, pwy yw rhif 3?
4. Ar pa gwrs rasio ceffylau y cynhelir ras 'Grand National Cymru'?
5. Ym mha gystadleuaeth yr ennillodd y Cymro James Davies fedal Olympaidd yn Rio?
6. Pa ddyfarnwr a'i wreiddiau ym mro'r Eco sydd bellach ar restr dyfarnwyr FIFA?
7. Pwy yw'r ddau Gymro sy'n rheoli timau yn Uwch Gyngghrair Pêl-droed Lloegr?
8. Mewn gêm griced T20 beth yw'r uchafswm o belawdau gall bowliwr gael?
9. Pwy gipiodd tlws Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn Cymru eleni?
10. Ar wahan i'r UAE eu hunain pa wlad sydd yn chwarae eu gemau prawf criced 'adref' yno?

*Mae'r atebion ar dudalen 8.*

**Hoffwn** ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i griw CPD Llanrug yn 2017. Mae'r croeso a gaf yn Eithin Duon yn un gwresog bob tro, yn enwedig gan Ceri a Mrs Cropper; mae'r ddwy yn fy nifetha yn llwyr. Mae geiriau caredig Dafydd Arfon yn codi calon hen ddyn a gobeithiaf ddod draw i'ch helpu eto yn 2017. Dymunaf Nadolig Llawn i Eifion Williams, gan obeithio y cawn gytuno eto ar ba bryd i godi'r fflag yn 2017.

**RHOSTIO  
MOCHYN**

*Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau*

**AR GYFER  
POB  
ACHLYSUR**

**DEWGS MAE  
O'N FLASUS**

**PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD  
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU  
CIG O FFERMYDD LLEOL  
PARTION RHWNG 40-400!**

Cysylltwch a

**John Brynafon  
LLANRUG**

[www.ydyncig.co.uk](http://www.ydyncig.co.uk)

**675190 • 673188**  
**Symudol - 07798 718188**

**CLWB NEWYDD** Mae'n siwr bydd llawer ohonnom yn ychwanegu ambell i bwys wedi dathlu y Nadolig. Os ydych yng nghyffiniau Bethel yna gall Clwb Rhedwyr Bethel sydd newydd ei sefydlu fod yn help i chiw. Sefydlwyd y clwb ym mis Tachwedd ac mae yn cyfarfod ger y Neuadd Goffa ar nos Fercher am 7pm. Eisioes mae 25 yn cyfarfod yn wythnosol. Nid oes unrhyw dâl ymaelodi.



# Chwaraeon

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Cymdeithas Pysgotwyr Seiont Gwyrfai a Llyfni

## Gweithgareddau 5x60 Ysgol Brynrefail



Hannah Hughes yw Swyddog Pobl Ifanc Egniol (5x60) Ysgol Brynrefail. Dyma adroddiad ganddi am rai o'r gweithgareddau y bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn eu mwynhau dros y mis diwethaf. Am fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu gyda Hannah Hughes ar 07816316236

### Marathon Eryri - Llanberis

Bu disgyblion Brynrefail yn gwirfoddoli a mwynhau yn Marathon Eryri yn ystod hanner tymor Hydref. Mae'r marathon yn un o ddigwyddiadau mwyaf ar galendr chwaraeon Cymru sydd yn denu 2500 o bobl i redeg o amgylch llwybr dalgylch yr Wyddfa. Diolch i'r disgyblion am eu gwaith gwirfoddol a llongyfarchiadau i'r athrawon a gwblhaodd y ras.

### Beicio Cymru

Cafodd ddisgyblion blwyddyn 9 a 10 y cyfle i ddangos potensial mewn beicio sprint yn ddiweddar. Mae Beicio Cymru wedi bod yn trefnu sesiynau ar draws Cymru i brofi dros 2000 o ddisgyblion yn chwilio am dalent. Os bydd athletwyr sydd yn meddu ar botensial i ddatblygu yn sbrintwyr all berfformio ar lwyfan y byd yno bydd gwahoddiad i'r disgyblion hynny i'r cam nesaf ynn Nghasnewydd yn y flwyddyn newydd. Pob lwc iddynt!

### Sesiynau Dringo

Trefnwyd 10 wythnos o sesiynau hyfforddiant dringo gyda staff Canolfan Awyr Agored Arete yng Nghanolfan Dringo Beacon, Caernarfon. Mae sesiynau pob nos Lun rhwng 4 a 5.30 am bris arbennig o £3 y disgybl. Mae sawl unigolyn wedi cymryd y cyfle i ddysgu sgil ac yn mwynhau gweithgaredd newydd.